# Y DINESYDD

Rhagfyr 2018 / Ionawr 2019

Papur Pobl Caerdydd a'r Fro

Rhif 433 £1



Bore Agored Ysgol Pen-y-Groes t.12

Sgiwyr Ysgol Pencae t.12



**NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA**

Carolwyr Ysgol y Wern t.12



# Y DINESYDD

**Golygydd:**
**Clive Rowlands**

***Golygyddion Chwefror***
***Eirian a Gwilym Dafydd***

Cyfraniadau erbyn 27 Ionawr i:
4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd,
Caerdydd, CF14 7EJ
eirianagwilym@gmail.com
029 20657108

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Iestyn Davies
iestynd@gmail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria,
Caerdydd, CF5 1AE
07876 068498

Prif Ddosbarthwr:
Ceri Morgan
ceri33@btopenworld.com
24, Cwm Gwynlais, Tongwynlais,
Caerdydd, CF15 7HU
029 20813812 / 07774 816209

Tanysgrifiadau i:
Ceri Morgan
ceri33@btopenworld.com
24, Cwm Gwynlais, Tongwynlais,
Caerdydd, CF15 7HU
029 20813812 / 07774 816209

**www.dinesydd.cymru**
Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi
ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Gwasg Morgannwg, Castell-nedd.
Cysodydd: Eirian Dafydd

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

CYMRAEG

Y Cyfryngau Cymdeithasol

Twitter: @DinesyddCdydd
Facebook:
www.facebook.com/YDinesydd


# Cwmni Dawns Werin Caerdydd yn Dathlu'r Aur

1968 ac fel y canodd Dafydd Iwan sawl gwaith - Ry'n ni yma o hyd. Pwy fyddai wedi dychmygu nôl yn 1968 y byddai cwmni o ddawnswyr gwerin wedi para am hanner can mlynedd. Wrth gwrs, mae'r dawnswyr wedi newid dros y blynyddoedd a dim ond un o'r dawnswyr gwreiddiol sydd bellach yn dawnsio, sef Gill James sydd hefyd yn cynorthwyo gyda'r dysgu.

Nos Wener, Tachwedd 23 2018 daeth dros 130 o aelodau, cyn-aelodau, cyd-ddawnswyr a ffrindiau ledled Cymru i Westy'r Angel i ddathlu pen-blwydd y Cwmni yn 50. Llwyddwyd i gysylltu â dros 80 o gyn-aelodau trwy waith ymchwil yr aelodau presennol a chafwyd cwmni Dafydd Elis Thomas, Y Gweinidog Diwylliant a Huw Thomas, Arweinydd Cyngor Caerdydd yn ogystal.

Mewn dathliad o'r fath mae'n anorfod mai edrych yn ôl y bydd pobl a dwyn i gof atgofion o deithiau, eisteddfodau a gwyliau a chofio'r troeon trwstan o'r gorffennol. Addas iawn felly oedd i Dafydd James, Cadeirydd y Cwmni orffen ei araith o groeso trwy gynnig llwncdestun i Ffrindiau Absennol gan gofio yn eu plith y diweddar Christine Jones a oedd yn un o'r aelodau gwreiddiol ac a fu'n Arweinydd Dawns y Cwmni am 38 mlynedd.

Fel rhan o'r dathlu perfformiwyd dawns newydd Y Goron Aur, dawns a gyfansoddwyd gan Andrew Tyler yn arbennig ar gyfer y noson ac wedyn cafwyd datganiad o Brethyn Aur, tôn a gyfansoddwyd gan Rhiain Bebb ar gyfer yr achlysur. Yn ôl y disgwyl bu dawnsio, sgwrsio a hel atgofion gyda chymorth arddangosfa o luniau, fideos a nifer o greiriau a gasglwyd dros y blynyddoedd.

Daeth y noson i ben yn swyddogol gyda dawns Cylch Cyrcasian ond aeth y dathlu ymlaen gyda chriw brwdfrydig o gerddorion a chantorion tan yr oriau mân. Dathliad i'w gofio.





# Nadolig - Y Stori 2018

Roedd Sally Humble-Jackson yn gwirfoddoli yng Ngharchar Caerdydd, pan ofynnwyd iddi lunio drama o stori'r geni gyda'r carcharorion. Yn dilyn hyn cafodd y syniad o lunio fersiwn galw-heibio o stori'r Nadolig, allai fod yn rhan o'r Nadolig i bobl nad ydyn nhw'n mynd i gapel neu eglwys – rhywbeth tebyg i groto Siôn Corn. Gyda llawer o waith caled a dyfalbarhad, arweiniodd hyn at lwyfannu *Nadolig - y Stori.*

Yn 2010 daeth Cristnogion o eglwysi Cymraeg a Saesneg yng Nghaerdydd at ei gilydd fel rhan o'r cynhyrchiad yn eglwys y Tabernacl ar yr Ais.

O Ragfyr 1 tan yr 22, mae unarddeg o sioeau y dydd, sy'n rhedeg dros 20 munud yr un ac mae modd dilyn y stori yn Gymraeg neu Saesneg. Mae mynediad am ddim i bawb. Does dim perfformiadau ar y Suliau.

Mae'n edrych yn wych pan fo cwota llawn o actorion ar gael gan ddod â'r stori'n fyw ond pan fydd dim ond un neu ddau o bobl yn Nasareth a Bethlehem mae'n edrych yn wag iawn! Mae cael 3 gŵr doeth yn hytrach na dim ond 2 yn llawer gwell hefyd!

Byddem yn falch iawn o gael mwy o bobl i'n helpu gyda'r actio (does dim llinellau i'w dysgu!) neu drwy fod yn stiwardiaid, sy'n rhoi cyfle i chi warchod y ddau asyn y tu allan i'r Tabernacl. Gallech ddewis cymryd rhan yn sioeau'r bore neu bnawn neu drwy'r dydd. Ar y Sadwrn byddai cyfle i rieni a phlant hoffai actio chwyddo nifer pobl Nasareth a Bethlehem.

Os oes diddordeb dewch draw i weld perfformiad ac yna cael gair gydag un o'r tîm cynhyrchu i gynnig help neu cysylltwch â Dafydd Griffiths ar ha.fan@virgin.net 02920 568420  07854 114887.

## Siopau sy'n gwerthu'r Dinesydd

**CABAN**, Pontcanna
**CANT A MIL VINTAGE**, 100 Whitchurch Rd.
**CHAPTER**, Treganna
**DERI STORES**, Rhiwbina
**GRIFFIN BOOKS**, Penarth
**NISA**, Heol Caerdydd, Dinas Powys
**PAPERWEIGHT**, 22 Wellfield Road
**SIOP BODLON**, Yr Hen Lyfrgell, Yr Ais
**SIOP Y FELIN**, Yr Eglwys Newydd
**VICTORIA FEARN GALLERY**, Rhiwbina




## Y Cyfryngau Cymdeithasol

**Cadwch mewn cysylltiad â'r Dinesydd ar Twitter trwy ddilyn ein cyfrif newydd @DinesyddCdydd, ac ar Facebook trwy ddilyn www.facebook.com/YDinesydd**

## Côr Caerdydd
### Yn coffáu Canrif ers diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf

Bore olaf mis Hydref ac roedd criw go helaeth o Gôr Caerdydd yn aros am fws unwaith eto. Y tro hwn i'n cludo i Heathrow i ni hedfan i  Ferlin ar gyfer digwyddiad arbennig iawn - coffáu canrif ers diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf. Roedd Syr Karl Jenkins wedi gwahodd corau o bob cwr o'r byd i ganu perfformiad arbennig iawn o "The Armed Man: A Mass for Peace" yn Arena Mercedes Benz ym Merlin.

Mae'r côr wedi perfformio'r darn nifer fawr o weithiau dros y blynyddoedd, nifer ohonynt dan faton Syr Karl ei hun, ac efallai fod hwn yn swnio fel unrhyw berfformiad arall. Ond nid perfformiad cyffredin mo hwn. Roedd 1,500 o gantorion eraill o gorau o dros 30 o wledydd eraill yn mynd i gyd-ganu, i gyfeiliant The World Orchestra for Peace.

Roedd y cyngerdd yn waith misoedd o drefnu a chydlynu, a Gwawr Owen, arweinydd Côr Caerdydd, gafodd y dasg enfawr o gasglu'r corau at ei gilydd. Mae'r gwaith yn un cyfoes, aml-ffydd ac amlieithog ac mae'n disgrifio'r cyfnod sy'n arwain at ryfel, erchyllterau rhyfel ac effeithiau rhyfel. Yn cyd-fynd â'r perfformiad roedd ffilm arbennig a phwerus yn dangos delweddau o wrthdaro hanesyddol i gyd-fynd â'r gerddoriaeth.

Wrth gwrs roedd cyfle i grwydro Berlin i flasu peth o ddiwylliant a hanes anhygoel y ddinas hyfryd sydd wedi profi cymaint o frwydro a gwrthdaro. Ond byrdwn y daith tro yma oedd dathlu heddwch a hynny trwy gerddoriaeth. Profiad anhygoel oedd perfformio yn Arena Mercedez Benz; roedd hyd yn oed ymarfer y darn yn emosiynol, o feddwl am am yr hyn roedden ni'n canu a phwy oedd yn rhan o'r perfformiad.

"Ein Konzert fur Frieden" oedd ar y posteri oedd o gwmpas Berlin. Cyngerdd Heddwch. Cyngerdd i gofio canrif ers diwedd y Rhyfel Mawr, a pha mor bell ry'n ni wedi dod. Ganrif yn ôl prin y byddai cantorion o'r Almaen, Lloegr, Gwlad Belg, Israel a Sbaen wedi bod yn canu ochr yn ochr â rhai o Awstralia, Seland Newydd, yr Unol Daleithiau, Ffrainc a ni, y Cymry. Fel dywedodd nifer - mae cerddoriaeth yn ein huno ni ac wedi dod â ni at ein gilydd i ddathlu heddwch.



## Addysg Gymraeg – Gobaith am Dwf i Ddod

Yn wyneb yr argyfwng o ddiffyg twf, neu yn hytrach leihad, dros 2 flynedd ers uchafrif 2016 o 747 disgybl newydd ceisiodd RhAG Caerdydd gyfarfod ag Arweinydd y Cyngor, Huw Thomas a Deilydd Portffolio Addysg, Sarah Merry a chafwyd drafodaeth galonogol ar sawl mater perthnasol i Addysg Gymraeg.

Trafodwyd yn gyntaf y drefn derbyn ceisiadau a'r ffaith ei fod yn amlwg bod nifer o rieni yn chwarae gêmau gyda'r system gan geisio a derbyn lle yn yr ysgolion Cymraeg fis Ebrill ac felly yn amddifadu rhieni eraill o'r cyfryw lefydd ond i dynnu nôl fis Awst gan ddal ymlaen i lenwi llefydd ar restri'r ysgolion Anglicanaidd neu Pabyddol, rhestri nad ydynt yn agored i swyddogion y Sir. Erbyn Awst wrth gwrs mae'r rhieni sy wedi methu yn eu ceisiadau am le mewn Ysgol Gymraeg wedi derbyn yn anfoddhaol le mewn Ysgol Saesneg. Mae'r ffigyrau yn dangos bod tua 30 o blant wedi derbyn ac wedyn wedi rhyddhau lle mewn Addysg Gymraeg ac o ganlyniad mae nifer y mynediadau wedi syrthio o 727 yn Ebrill i 713 yn Awst, gyda'r cyfanswm ddim wedi syrthio'n fwy ond am fod apeliadau llwyddiannus fis Gorffennaf a cheisiadau hwyr.

Cais RhAG oedd i orfodi rhieni i ddewis cyfrwng iaith yn derfynol a hefyd i gytuno gyda'r awdurdodau esgobol i gael tryloywder rhwng y rhestri i sicrhau nad yw rhieni yn bachu lle ar fwy nac un rhestr gyda'r bwriad o gadw'u hopsiynau yn agored ar draul rhieni eraill. Cafwyd derbyniad gwell i'r ail gynnig nag i'r un cyntaf ond cytundeb llwyr nad oedd tegwch yng ngêmau rhai rhieni.

Pynciau eraill dan drafodaeth oedd cynlluniau i wario'r symiau yn dod o'r llywodraeth a datblygwyr maesdrefi newydd. Mae'r swyddogion yn gweithio ar gynlluniau i helaethu'r nifer yn cael eu derbyn i Ysgol Mynydd Bychan ac i Nant Caerau ond heb gytuno ar unrhywbeth eto. Bydd cyhoeddiad yn fuan yn y flwyddyn newydd ar gynllun i agor ysgolion (Cymraeg a Saesneg) i wasanaethu ardal newydd Plasdŵr. Roedd awydd i drefnu dalgylch ar gyfer Hamadryad heb oedi i gael yr ad-drefnu ehangach fydd ei eisiau yn sgil newid y dalgylchoedd yn y gorllewin.

Roedd ysbryd o gydweithio yn amlwg yn y cyfarfod hwn ac fe allwn obeithio am bethau gwell yn 2019.


*Michael Jones*

# O'r Ŵyl Cerdd Dant


## Merched Plastaf

Ar ôl mwynhau canu gyda'i gilydd wrth ymarfer at Eisteddfod yr Urdd eleni, roedd pob un o ferched Uwch Adran Caerdydd yn awyddus i gario 'mlaen i ganu gyda'i gilydd. Y nod, wedyn, oedd cystadlu yn yr Ŵyl Cerdd Dant – ym Mlaenau Ffestiniog! Cryn bellter, ond roedd y merched i gyd yn awyddus i roi cynnig arni, a dyma greu Merched Plastaf, sef cyfuniad o ferched o Ysgolion Plasmawr a Glantaf ac un o Fro Edern. Er gwaethaf y siwrnai faith, cafwyd cryn hwyl ar y bws, ac ambell i ymarfer hefyd.

"Roedd dwy gystadleuaeth, sef y Parti Cerdd Dant Uwchradd a'r Parti Alaw Werin Uwchradd. Cawsom gam yn y Cerdd Dant! Ond, o leiaf, cafwyd llwyfan yn yr Alaw Werin, felly i ffwrdd â ni i chwilio am ofod ymarfer, a chael rhywfaint o ginio i'n cadw ni i fynd. Cyffro, wedyn, wrth aros i fynd ar y llwyfan – ni oedd y trydydd parti i gystadlu. Ac yna aros am y canlyniad. Roedd pawb yn gwybod y byddai rhyw wobr, gan ein bod wedi cyrraedd y llwyfan, a phan gyhoeddwyd y canlyniad ... LLWYDDIANT! Y WOBR GYNTAF!"




Bu cryn ddathlu ar y bws ar y ffordd gartref. Llongyfarchiadau bawb! Diolch i'r rhieni am eu cefnogaeth, a diolch yn fawr i Caryl Ebenezer a Bethan Webb am eu gwaith yn hyfforddi – pe bai gwobr am glebran, byddai Merched Plastaf yn dod i'r brig bob tro!




## Telynores Ifanc

Llongyfarchiadau i Megan Thomas, Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, ar ennill y wobr gyntaf yn yr unawd telyn oed uwchradd yn yr Ŵyl Cerdd Dant ym Mlaenau Ffestiniog a'r Fro fis Tachwedd. Dyma'r ail dro yn olynol i Meg ennill y wobr gyntaf ar ganu'r delyn yn yr Ŵyl Cerdd Dant. Llwyddiant pellach i Mrs Sian Morgan Thomas, hyfforddwraig Meg.

# Cylch Cinio Cymry Caerdydd

Bu dros ddeugain yn bresennol ar gyfer cinio cyntaf y tymor o Gylch Cinio Cymraeg Caerdydd ddechrau Hydref. Cafwyd gwledd o fwyd a gwledd o araith hefyd, wrth i'r siaradwr gwadd, Winston Roddick, Cyn-Gomisiynydd Heddlu Gogledd Cymru, ein diddanu. Ymhyfrydai mai un o 'Cofis Dre' oedd yntau, a chawsom nifer o'i atgofion difyr a doniol o'i fywyd cynnar yno. Pwysleisiodd ei deimlad o fethiant cynnar pan oedd yn yr ysgol, nes i'w deulu symud i Malta, lle y dylanwadodd un athro arbennig arno cymaint, fel y dechreuodd fwynhau llwyddiant. Bu'n blismon yn Lerpwl cyn dilyn cwrs y gyfraith yn Grey's Inn, cael ei ddyrchafu'n Sidanwr, a chodi yn y byd cyfreithiol hyd y penodwyd ef yn Gwnsler Cyffedinol Cynulliad Cymru. Bu wedyn yn Gomisiynydd Heddlu cyntaf Gogledd Cymru, a soniodd am y gwaith caled, a'r boddhad, o gydweithio effeithiol gyda swyddogion y Llu hwnnw, er gwaetha'r cyfnod o gynni ariannol ar y pryd. Cafwyd llawer o hiwmor ganddo, a nifer o bethau i feddwl amdanynt, wrth iddo drafod y dylanwadau a digwyddiadau yn ei fywyd byrlymus a diddorol.

Bydd y Cylch wedi cyfarfod eto i wrando ar Tim Hartley erbyn i'r Dinesydd fynd drwy'r wasg ym mis Rhagfyr, ond ym mis Ionawr y siaradwr gwadd ar Ionawr 7ed fydd un o sêr ifainc y ddinas, y cyfreithiwr Rhys ab Owen.



***Bill Davies, Winston Roderick a Ruth Davies***

# Y Silff Lyfrau - Anrhegion Nadolig

## Dear Mona
### Letters from a Conscientious Objector

**JONAH JONES; Gwrthwynebydd Cydwybodol**

Roedd Jonah Jones (1919-2004) yn gerflunydd, ysgrifennwr ac artist-grefftwr Cymreig adnabyddus. Magwyd ef yn Swydd Durham yn fab i löwr. Gadawodd yr ysgol yn 16 oed a dod yn llyfrgellydd dan hyfforddiant.

Yn ystod yr Ail Ryfel Byd gwasanaethodd fel gwrthwynebydd cydwybodol fel anymladdwr yn Y Corfflu Meddygol. Ar ddiwedd y rhyfel bu'n gwasanaethu yng nghanolfan addysg y fyddin ym Mhalesteina, Ar ôl ei ddadfyddiniad, dechreuodd ei 'addysg wrth ei waith' fel cerflunydd a thorrwr llythrennau. Treuliodd Jonah Jones bymtheg mlynedd ola ei fywyd gyda'i wraig yn Llandaf, gan barhau i baentio wedi i waith trwm cerflunio fynd yn ormod iddo.

Yn 2011 cyhoeddwyd bywgraffiad *'Jonah Jones; an Artist's Life'* gan ei fab Peter. Ddwy flynedd yn ddiweddarach cafodd alwad ffôn oddi wrth David Lovell. Roedd o wedi dod ar draws llond bocs cardfwrdd o lythyron (475 i gyd) oddi wrth Jonah (a adwaenid fel Len bryd hynny) at ei fodryb Mona Lovell. Trwy'r llythyrau ceir profiadau gwrthwynebwyr cydwybodol ac ymddygiad Prydain yng nghymal ola Mandad Palesteina. Roedd Len tuag ugain oed pan ddechreuodd ysgrifennu'r llythyrau hyn at ei ffrind a'r mentor Mona Lovell. Cyfeiriodd ati fel ei *'guiding light in my life'* gan gydnabod iddi helpu i fowldio ei gymeriad drwy'r blynyddoedd o dyfu i fyny. Tyfodd y cyfeillgarwch yn rywbeth dyfnach, ac yn sicr roedd Mona mewn cariad gyda Len (oedd bymtheng mlynedd yn iau na hi). Sylweddolodd e mai platonig oedd y berthynas a daeth y llythyron i ben ddiwedd Awst 1946 gyda llythyr o Haifa yn cyhoeddi bwriad Jonah i briodi Judith Grossman (adwaenir yn ddiweddarach fel y nofelydd Judith Maro).

Lansiwyd y gyfrol *'DEAR MONA Letters from a Conscientious Objector JONAH JONES'* yng Nghwrt Insole, Llandaf yn ddiweddar. Cafwyd cyflwyniadau gan Mick Felton ar ran Gwasg Seren a Wynn Wheldon fel lluniwr y Rhagair gyda Peter yn darllen darnau o'r llythyron.

Y flwyddyn nesa dethlir canrif ers geni Jonah Jones a mae ei dri phlentyn, Peter, David a Naomi, wedi paratoi arddangosfa o'i waith fydd i'w gweld ym Mhlas Glyn y Weddw, Llanbedrog o ddiwedd Ionawr 2019. Edrychwn ymlaen at gael mwy o hanes Jonah Jones a'i waith yn *Y Dinesydd*.



***Peter Jones ac aelodau o'i deulu a chyfeillion yn y lansiad***


## Chwarter Canrif Galwad Cynnar
**cyfrol i ddathlu pen blwydd un o raglenni mwyaf poblogaidd Radio Cymru**
**Aled P. Jones (gol.)**

'Cyfrol wych sydd, fel y rhaglen radio, yn eich tywys ar daith hwyliog a rhyfeddol i bob rhan o Gymru.'
***Tudur Owen***

I nodi pen blwydd y rhaglen natur boblogaidd *Galwad Cynnar*, mae Gwasg Carreg Gwalch wedi cyhoeddi cyfrol hardd sy'n dathlu cynefinoedd Cymru.

Mae *Galwad Cynnar* wedi bod yn diddanu naturiaethwyr ledled Cymru am 25 mlynedd bellach, gan godi ymwybyddiaeth o gyfoeth naturiol unigryw ein gwlad. Yn ôl Tudur Owen, sy'n un o'r gwrandawyr selog, 'Er fy mod i'n pryfocio'r criw weithia gan ddweud mai hon yw ail raglen orau BBC Radio Cymru, dwi'n credu bod *Galwad Cynnar* yn un o'n trysorau cenedlaethol bellach.'

Y cynhyrchydd a fu wrth y llyw yn hirach na 'run arall, Aled P. Jones, sy'n ein llywio drwy'r cyfan gan roi cip bach i ni ar sut yr oedd pethau y tu ôl i'r llenni, a rhannu rhai o gyfrinachau'r teithiau recordio allanol (gan gynnwys y trafferthion technegol!). Mae Gerallt Pennant, y cyflwynydd dihafal, a hoelion wyth y rhaglen, hefyd yn cyfrannu i'r llyfr, gan roi eu hargraffiadau personol o fod yn rhan o raglen mor eiconig â *Galwad Cynnar*.





Yn plethu'r cyfan at ei gilydd mae ffotograffau trawiadol Aled, fu'n cofnodi pob taith a sesiwn recordio yng nghwmni'r arbenigwyr.

Chwarter Canrif Galwad Cynnar Pris £15.
Am fwy o fanylion, cysylltwch â
Gwasg Carreg Gwalch, Llanrwst, Dyffryn Conwy, LL26 0EH
(01492) 642031 / llanrwst@carreg-gwalch.cymru

# Colli'r Hogiau

Clamp o gyfrol!

Cyfrol am y Rhyfel Mawr, y Cymry a Chymru yw *Colli'r Hogiau: Cymru a'r Rhyfel Mawr 1914-1918* gan fanylu ar adwaith y Cymry i'r ymrafael a'r colledion.




Fel y dywedir ar y dechrau trasiedi mawr y rhyfel oedd y gred gyffredin y byddai popeth drosodd erbyn Nadolig 1914.

Un nodwedd arwyddocaol yn y gyfrol yw manylder y ffeithiau, y disgrifiadau a'r digwyddiadau gan gychwyn gydag ymateb y Cymry a'r wasg Gymreig i lofruddiaeth Arch-ddug Francis Ferdinand a'i briod yn Sarajevo a gychwynnodd y rhyfel yn ôl pob honiad.

Mae'r gyfrol yn waith ymchwil manwl. Llwyddodd yr awdur hefyd gael adwaith teuluoedd niferus am straeon personol, meibion a pherthnasau fu'n brwydro yn y rhyfel. Derbyniodd yr awdur ymateb rhyfeddol i'w ymholiadau. Dywed ar ddechrau'r gyfrol, *Bu'n daith hir, ac o'r diwedd, dyma gyrraedd pen y daith.* Go brin y gellir anghytuno â hyn!

Ceir deuddeg pennod yn ymestyn o 1914-1918 a nifer fawr o luniau o'r milwyr a'u teuluoedd a chofebion. Yn ogystal â hanes dirdynnol a thrasig y rhyfela ar faes y gad mae'r gyfrol hefyd yn ddarlun o gymdeithas y cyfnod.

Roedd llythyrau'r milwyr at eu rhieni yn llawn o hiraeth. Holent am hynt a helynt cyd-ardalwyr, am hanesion perthnasau a chyfeillion, ac am fân ddigwyddiadau cyffredin beunyddiol bywyd. Holai meibion fferm am yr aredig………….

Ceir disgrifiadau niferus a sensitif o golledion rhieni.

*Golygfa drist, ac fel mae gwaeth modd golygfa gyffredin yn y dyddiau hyn yw gweld aml i fam dyner a gofalus yn methu'n lân â sylweddoli na ddaw "cannwyll ei llygaid" yn ôl o'r daith hon, a llawer tad tirion yn ei golled "yn distewi a myn'd yn fud"*

Darllenwn am y gymdeithas, am hanes chwaraewyr clybiau pêl-droed a rygbi Cymru'r cyfnod. Sonnir am y gôl-geidwad lliwgar ac adnabyddus yn ei ddydd, Leigh Richmond Roose a laddwyd ar Hydref 7, 1916. Doedd neb yn dianc o erchylltra'r brwydro.

Mae'r gyfrol hon yn deyrnged werthfawr i bawb a gollodd eu bywydau.

I bawb sy'n ymddiddori yn hanes Cymry yn ystod ugain mlynedd gynta'r ganrif ddiwethaf mae hon yn gyfrol arbennig. Prysured y rhain i'w darllen ar fyrder. Nid oes gyfrol debyg iddi yn y Gymraeg.

Teitl: *Colli'r Hogiau: Cymru a'r Rhyfel Mawr 1914-1918*
Awdur: *Alan Llwyd*
Pris *29.99 Gwasg Gomer*

*Clive Rowlands*

---

## Cerddi Rhyfel
## Hannah Roberts

### HEDDWCH

Hysbyseb---
Heddwch ar werth
yn orchest mewn archfarchnad.
Ei ddiwyg i ddenu?
Dewiswch chi.
Bu rhyfel yn rhad erioed
Ai tolio wnawn y tâl am hwn?

Daethom o ffrwydriadau'r sêr
eu hanian hwy sydd ynom,
Cain yw ein cynhysgaeth
o ddechrau'r daith.

Na,
nid tyrru wnaem â'n troliau i brynu hwn,
rhedwn o reidrwydd i bentyrru rhyfel
a'n basgedu'n bwysau dan y gwarth.

A haeddwn heddwch?
Dewiswch chi.

### FFOSYDD

Ar wyneb yr ardd,
wrth gwter o glawdd
mae wynebau ysgarlad,
wynebau yn gwenu arnaf,
yn gwenu wrth odre byddin pinwydd
sy'n gefnlen werdd.

Ar dro,
disgynna conion o fomiau
ag ysgwyd y Pabi pert,
nes bod petalau yn tasgu yn ddiferion coch i'r pridd.

Ddoe
brwydrodd hwn i dyfu,
yn ffieidd-dra ffosydd Ffrainc.

Ddoe,
yn y gwythiennau geirwon hynny,
yn yr uffern orffwyll,
bu bomiau yn bla o boen ar y bechgyn,
a chwydu'u gwaed yn betalau coch i'r pridd,
i graith o gwter,
a'r Somme yn sgarlad.

Heddiw,
rhes ar ben rhes o feddau mud
a'r Pabi'n siarad drostynt i gyd.


# Anrhegion Nadolig i'r Plant

## 1 2 3 Byd Natur

Awdur: Luned Aaron Pris: £5.95 Gwasg Carreg Gwalch

Yr anrheg perffaith i blant bach 1-7 oed. Mae **123 Byd Natur** yn boeth yn y siopau!. Yn dilyn llwyddiant **ABC Byd Natur** a **Lliwiau Byd Natur**, mae'r dilyniant yma i'r gyfres yn siwr o apelio at blant a'u rhieni. Fel yn y cyfrolau blaenorol, mae'r llyfr chwareus hwn yn llawn creadigrwydd a lliw, a bydd modd i blant ddysgu mwy am fyd natur o'u cwmpas, yn ogystal â dysgu cyfrif i ugain, wrth iddynt bori ar y delweddau amrywiol.




## Alys yn y Canol

Addasiad: Eleri Huws Cyfres Alys a Megan

Pris:£5.99 Gwasg Carreg Gwalch

Stori afaelgar wedi'i haddasu gan Eleri Huws. Hanes dwy ffrind yn mynd i Wersyll Haf. Mae un o'r merched, Alys, yn cwrdd â ffrind newydd, hollol wahanol i Megan. A fydd Megan yn colli'i ffrind? Addasiadau o nofel o Iwerddon yw cyfres Alys. Cyfres yn cynnwys storïau delfrydol i ddisgyblion 9-12 oed. Bydd y cynnwys a'r cymeriadau yn sicr o apelio. Addasiad llwyddiannus iawn.




## Straeon Pum Munud

Awdur: Rhiannnon a Dewi Pws Pris: £6.95


Gwasg Carreg Gwalch

Llyfr hynod ddeniadol a'r clawr yn sicr o ddal sylw. Cyfrol clawr caled. Lluniau lliwgar a chasgliad diddorol o straeon byrion. Yr anrheg delfrydol i ddal diddordeb plant meithrin a derbyn. Yr union lyfr i rieni ddarllen i'w plant!

## Gwenwyn – a Gwasgod Felen

Awdur: Haf Llewelyn Pris: £6.99 Gwasg Carreg Gwalch

Stori Dafydd a'i chwaer Dorothy, plant amddifad yn wynebu gorfod mynd i'r wyrcws a gweithio'n galed.Yn sydyn mae tro ar fyd i Daniel pan gaiff waith gyda fferyllydd. Yn sydyn mae pethau'n newid. Daw ar draws un botel fechan wenwynig. Mae perygl y bydd y botel fechan hon yn bygwth dyfodol Daniel a'i ffrindiau. Cymeriadau credadwy a stori sy'n dal o'r cychwyn gan nofelydd profadol. Addas ar gyfer plant 9-12 oed.







## Tomos Llygoden y Theatr

Awdur: Caryl Parry Jones a Craig Russell Pris: £4.95

Lluniau: Leri Tecwyn Gwasg Carreg Gwalch

Lluniau trawiadol a stori afaelgar. Yr anrheg Nadolig delfrydol i blant 6-8 oed yn adrodd helyntion Tomos, y llygoden fach. Mae Tomos yn byw mewn theatr hardd ond yn sydyn mae yna broblem. Beth sy'n digwydd.........? Beth yw'r broblem.....? Sut mae Tomos yn gallu helpu …..?




## Henriet y Syffrajet

Awdur: Angharad Tomos Pris: £6.99

Gwasg Carreg Gwalch

Nofel arbennig iawn gan awdur profiadol. Hanes yr ymgyrch i ennill pleidlais I ferched dros gan mlynedd yn ôl. Cawn ddisgrifiadau byw iawn, cell mewn carchar, gweithredoedd y Suffrajets yn Llundain ac ar y llaw arall stori dwy ferch ifanc yn byw mewn pentref chwarel yng ngogledd Cymru. Ceir disgrifiadau byw iawn o'r gwahanol gymeriadau. Mae Henriet yn gymeriad pwerus. Bydd y stori a'r cymeriadau yn sicr o apelio at bobl ifanc 9-12 oed


## Rebel Rygbi

Awdur: Gerard Siggins Addasiad: Gwenno Hughes

Cyfres Rygbi 3 Pris £5.99 Gwasg Carreg Gwalch

Stori wych i blant 9-12 oed yn dilyn hanes Owain, y chwaraewr rygbi. Mae e nôl yng Ngholeg Craig Wen ac wedi dechrau ymarfer ar gyfer Y Cwpan Iau. Ond mae mwy i'r stori nag ymarfer a chwarae rygbi. Mae e'n cwrdd â Sam a dyna ddechrau'r helynt. Dyma stori fydd yn dal dychymyg plant a phobl ifanc. Mae'r iaith yn gyfoethog a'r mynegiant yn llifo'n esmwyth. Mae addasiad Gwenno Hughes yn taro deuddeg.



# Cymrodorion Caerdydd

'Eisteddfod yn y Ddinas' oedd teitl cyflwyniad Betsan Moses, Prif Weithredwr yr Eisteddfod Genedlaethol, yng nghyfarfod mis Tachwedd o Gymrodorion Caerdydd.

Ni fu 'Steddfod debyg i un eleni erioed o'r blaen! - dyna yw'r farn gyffredinol. Serch hynny fe gafwyd holl hanfodion Eisteddfod Genedlaethol ynddi. Gosodwyd y cystadlaethau arferol, comisiynwyd gweithau arbennig, cynhaliwyd y seremonïau traddodiadol, cafwyd Maes B a D, ond y gwahaniaeth sylfaenol oedd diffyg safle unswydd i'r Maes. Canlyniad hynny oedd fod y 'Maes' yn gwbl agored i'r cyhoedd – eisteddfodwyr a phawb arall, a hynny'n rhad ac am ddim.

Galluogodd y polisi bwriadol hwn i'r Eisteddfod i fod yn 'ffenest siop' i ddiwylliant Cymraeg. Dathlu'r iaith yw *raison d'être* yr Eisteddfod, a'r tro yma cafwyd gwell cyfle nag arfer i siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg wneud hynny gyda'i gilydd. Dywedodd Betsan fod 56% o gynulleidfa eisteddfodol Canolfan y Mileniwm wedi bod yn ddi-Gymraeg. Ymgais i ymestyn allan i gymunedau aml-ddiwylliannol y ddinas oedd gwahodd Carnifal y Môr i orymdeithio drwy'r 'Maes' yn un bwrlwm lliwgar.



***Arwisgo Lona***

Fel y pwysleisiodd Betsan, ni ddylai bröydd mewn rhannau eraill o Gymru sydd am wahodd yr Eisteddfod feddwl bod disgwyl iddynt ddynwared yr hyn a gafwyd eleni. Beth bynnag, nid oedd Eisteddfod Caerdydd heb ei phroblemau! Un cwestiwn y bydd yn rhaid rhoi sylw iddo cyn bo hir yw pa mor aml ddylai'r Eisteddfod Genedlaethol ymweld â'r brifddinas – ac a fyddai'n deg i fynediad i'r 'Maes' fod yn ddi-dâl bob tro?

Dadl o blaid Eisteddfod grwydrol yw ei gwaddol yn y bröydd o ran brwdfrydedd dros yr iaith a'i diwylliant, a pharhâd bywiogrwydd y cydweithio gwirfoddol cymunedol wedi i gyffro yr wŷl ei hun fynd heibio. Yr arwyddion yw fod gwaddol Eisteddfod 2018 yn y meysydd hyn yn foddhaol iawn.

Diolchwyd i Betsan gan Lona Roberts, y Llywydd.

# Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd


Bu mis Tachwedd yn fis amrywiol wrth groesawu siaradwyr diddorol i'n plith.

Ddechrau'r mis rannodd Mrs Glenys Evans ei phrofiadau ar y testun "Rhaid cael chwerthin". Soniodd am y dirgelwch wrth ddehongli geirfa oedolion ar yr aelwyd adeg ei phlentyndod yn ardal Efailwen. Wedi priodi ag Anthony Evans, yr artist amryddawn, cafodd yrfa hir a hapus gyda phlant bach a'u doniolwch, gan sôn am bob math o ddigwyddiadau a hwyl hapus yn eu plith. Bu'r prynhawn o wefr llawn sbri yn rhoi mwynhad i bawb o'r gwrandawyr.



***Glenys Evans***

Ganol y mis, Andrew a Dianne Bartholomew, dau berson gweithgar yn y ddinas, fu'n sôn am eu hymweliadau â gwledydd tramor fel aelodau o Gwmni Dawns Werin Caerdydd, cwmni sy'n dathlu 50 mlynedd eleni. Cafodd y ddau brofiadau diddorol ac amrywiol yn ymweld â gwledydd fel yr Iseldiroedd, yr Unol Daleithiau, Siapan ac ati. Yn yr Wcráin bu'r dawnswyr yn westeion i Faer Caerdydd adeg gyfeillio â Lugansk, mewn gwlad llawn tlodi, ond yn groesawgar iawn i'r ymwelwyr. Hefyd, cawsant gyfnod byr yn ymweld â Moscow a'i rhyfeddodau. Bu'n ddarlith i'w chofio'n hir am gyflwyniad bywiog.




***Andrew a Dianne Bartholomew***

Dymuna aelodau'r Aelwyd anfon eu cyfarchion i bawb wrth ddathlu Gŵyl Geni'r Nadolig.

Mae croeso cynnes i aelodau newydd ymuno â'r Aelwyd. (Manylion pellach – Menna Brown – Ffôn 2025 4679).

# Merched y Wawr Bro Radur

Braf oedd cael un o aelodau'r gangen, sef, Einir Wyn Davies i gynnal noson ddifyr yn ystod mis Tachwedd. Mae Einir yn enedigol o Ddyffryn Aman ond symudodd i Gaerdydd pan gafodd swydd Mathemateg yn y Bontfaen, ac wedyn yn Glantaf, cyn ehangu ei gorwelion a mynd i ddysgu yn Swaziland. Ar ôl dychwelyd i Gymru bu'n swyddog mathemateg gyda'r Baglwariad Cydwladol am ddeunaw mlynedd.

Mae Einir wedi ymddeol bellach ond nid yw'n segur! Penderfynodd wirfoddoli gyda Chŵn Tywys y Deillion. Cawsom lawer o wybodaeth am y modd mae'r cŵn yn cael eu hyfforddi. Cânt eu dysgu sut i ymddwyn mewn cartref, ar fysiau, trenau ac mewn meysydd awyr. Gallant dywys unigolion o gwmpas yn ddiogel gan osgoi rhwystrau. Yn dilyn cyfnod gyda hyfforddwyr cŵn, mae'r perchennog a'r hyfforddwr yn cyd –weithio am 18 – 24 mis a sefydlir perthynas arbennig rhwng y ci a'i berchennog. Mae'r gost o hyfforddi ci tywys rhwng £5,000 a £10,000 ond mae bod yn berchen ar gi tywys yn gallu newid bywyd person sydd â nam ar eu golwg a galluogi iddynt fod yn llawer mwy annibynnol. Cafodd Einir gymorth Carol a'i chi tywys, Nelson ar y noson a hefyd Hannah, sy'n hyfforddi cŵn tywys. Roeddynt yn hynod barod i ateb ein cwestiynnau ac roedd pawb wedi gwirioni hefo Nelson!



Diolch i'r saith aelod fu'n cynrychioli'r gangen yn y Cwis Hwyl Cenedlaethol a llongyfarchiadau mawr i'r tîm o'r gangen ddaeth yn gyntaf yn y rhanbarth.

# Merched y Wawr Caerdydd

Cafwyd agoriad llygad i Fyd y Pwytho pan ymwelodd Marian Evans â'r gangen ar 13 Tachwedd. Eglurwyd mai ymarferiad ar wahanol bwythau a phatrymau yw *sampler* a gwelwyd enghraifft hardd. Yn wir, harddwch oedd yn nodweddu holl waith Marian. Roedd clytwaith godidog o liwiau oedd yn gweddu ei gilydd i'r dim a chwiltiau anghyffredin eu gwneuthuriad, yn cynnwys patrymau o bob math. Mae Marian yn gweithio yn y dull Cymreig ond mae dylanwad rhyngwladol ar ei chreadigaethau hefyd, yn eu mysg dulliau o'r Eidal ac o'r Unol Daleithiau.

Dangosodd inni'r cwilt a luniodd yn arbennig i godi arian at yr Eisteddfod. Mae lliwiau hwnnw mor gyfoethog a phob darn ag arwyddocâd arbennig. Ar sidan lliw hufen roedd mygydau llawen a thrist byd y ddrama yn gofiadwy, cwpled gan Jim Parc Nest ar un arall, arwyddair yr orsedd ar un arall, a'r cyfan mor chwaethus. Ar hyn o bryd mae Marian yn cydweithio â phlant Ysgol Nant Caerau ar greadigaeth fydd yn cyfleu stori Culhwch ac Olwen i'w osod yn Llys Llywelyn, Sain Ffagan.



Braint oedd cael gweld ei holl waith cain ac roedd yn cydnabod ei dyled i'w Hen Fodryb Blodwen. Wel, diolch, Blodwen, am gynysgaeddu Marian â'r fath ddawn ryfeddol.

Wrth groesawu sawl aelod newydd i'n plith, anfonwn ein cofion a'n dymuniadau da at ein cyfeillion sydd yn wael eu hiechyd neu'n gofalu am anwyliaid. Gwelwn eich eisiau'n fawr

# Merched y Wawr Cwis Hwyl

Llongyfarchiadau i bawb a ddaeth i'r Cwis Hwyl Cenedlaethol nos Wener, 9 Tachwedd. Roedd rhanbarth y de–ddwyrain wedi ymgunnull yng Nghanolfan Gartholwg. Roedd timau o'r rhanbarthau eraill wedi ymgunnull mewn dwsin o leoliadau gwahanol ar hyd a lled Cymru. Cafwyd cwestiynau ar amrywiol destunau gan gynnwys merched enwog, daearyddiaeth Cymru a'r cyfryngau.




Yr enillwyr yn yr Rhanbarth oedd yn
**1af Bro Radur(Ann Lewis, Eirian Dafydd, Heulwen Jones a Ruth Davies),**

**2il Pontypridd (Cerys Webber, Delyth Davies, Menna Thomas a Jayne Rees)**

**3ydd Clwb Llygaid y 'Dydd (Elin Angharad, Nest Gwilym, Sian Roberts a Gwawr James)**.

Roedd rhaid cael cwestiwn datglwm i benderfynu ar yr enillwyr yn genedlaethol.
A'r cwestiwn?
Faint o wartheg godro sydd i'w cael yng Nghymru?
A'r ateb? 251,175!

Diolch yn fawr i bawb am eu cefnogaeth.
Enillwyr Cenedlaethol
1af Cangen Caernarfon gyda 92 o farciau
2il Aberystwyth,
3ydd Rhuthun,
4ydd Bro Radur

# Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina

Cafwyd noson ddiddorol iawn yn y Gymdeithas ar Dachwedd 19 yng nghwmni Dr Elin Jones, yr hanesydd. Cafodd ei magu yn Ystrad Mynach ac yn wir mae hi'n dal i fyw yno. Merch ei milltir sgwâr! Yng nghyfnod ei phlentyndod, ei theulu hi oedd yr unig rai a siaradai Gymraeg yn y pentref a'r Wenhwyseg oedd y dafodiaith. Tafodiaith De-ddwyrain Cymru yw'r Wenhwyseg. Bu'n sôn am ddatblygiad tafodieithoedd a nodweddion y Wenhwyseg yn arbennig, sef caledu'r cytseiniaid, colli'r 'h' a chyfnewid cytseiniaid, fel yn 'mencyd', 'cwiddyl' ac ati. Mae'n dafodiaith a fu mor bwerus ar un adeg ond sydd bron â diflannu erbyn hyn, yn anffodus. Cawsom hefyd enghreifftiau o rai o dribannau'r cyfnod. Roedd yn noson arbennig iawn, yn llawn hwyl a gwybodaeth.



# Ysgol Pencae



**Pob Lwc Mr Thomas**

Trist iawn oedd ffarwelio gyda Mr Thomas ar ddiwrnod olaf yr hanner tymor wrth iddo fentro ar antur newydd gydag Estyn. Dymunwn bob lwc iddo yn ei swydd newydd ac rydym yn edrych ymlaen i'w gael yn ôl mis Medi!

**Cystadlaethau Chwaraeon**

Bu criw o blant yn cystadlu yng nghystadleuaeth sgio Gêmau Caerdydd gan wibio lawr llethr Y Tyllgoed. Llongyfarchiadau i Elan, Ned, Grace (Bl6), Gordon, Daniel (Bl5) a Grace (Bl4) am gynrychioli'r ysgol yn wych. *(gweler llun ar y clawr)*

Llongyfarchiadau i'r timau rygbi a fu'n cystadlu yn nhwrnamaint Ysgol Y Gadeirlan ac i'r tîm pêl-droed a fu'n mwynhau yn nhwrnamaint pêl-droed Ysgol Glan Ceubal.

Llongyfarchiadau i Mali Mai George a fu'n cystadlu yng Ngwlad Belg gyda thîm sglefrio iâ cydamseredig. Llwyddodd y tîm i gyrraedd y seithfed safle yn Ewrop.

**Plant Mewn Angen**

Cawsom ni ddiwrnod wrth ein boddau er budd Plant Mewn Angen. Roedd llu o weithgareddau wedi eu trefnu yn yr ysgol – o bobi cacennau a bisgedi i greu dillad newydd sbon i Pudsey. Uchafbwynt y diwrnod oedd gwneud cadwyn Pawen Lawen o'r ysgol i ganolfan y BBC gan ddiweddu gyda'r dyn ei hun, Pudsey. Bu aelodau Senedd Pencae yn siarad am drefniadau ein diwrnod gyda Siân Cothi ar ei rhaglen, Bore Cothi.

**Gweithdai**

Braf oedd croesawu Stephen yn ôl i'r ysgol er mwyn creu dinasoedd lliwgar allan o Lego. Roedd sgiliau adeiladu blwyddyn 4 a 6 yn wych a llwyddon nhw i oleuo'r ddinas gyda'u cylchedau trydan. Sôn am her llawn hwyl!

Roedd disgyblion blwyddyn 5 wrth eu boddau yn sgwrsio gyda Laura Halford – athletwraig a oedd yn rhan o dîm y Deyrnas Unedig yng Ngêmau'r Gymanwlad Awstralia. Roedd yn ysbrydoliaeth i bawb wrth iddi drafod ei gyrfa fel gymnastwraig ac arddangos ei sgiliau gymnasteg rhythmig.

# Ysgol Pen-y-Groes

Ar fore dydd Gwener Tachwedd 23 cynhaliwyd bore agored yn yr ysgol am y tro cyntaf. Pwrpas y bore oedd codi proffil ein hysgol a dangos i ddarpar rieni/ gwarchodwyr holl adnoddau a gweithgareddau ein hysgol. Daeth nifer fawr o rieni newydd a gwarchodwyr i ymweld â'r ysgol ac roedd yn hyfryd cwrdd â phawb. Ar gyfer y bore roedd disgyblion Bl 5/6 wedi cynllunio a threfnu bod amrediad o stondinau yn y neuadd yn arddangos y strategaethau addysgeg rydym yn defnyddio yn yr ysgol, y mentrau cymunedol rydym yn gwneud a'n gwaith Siarter Iaith gyda'r gymuned leol. Yn ogystal cawsom berfformiad hyfryd gan ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen. Roedd disgyblion Bl 6 wedi arwain teithiau dysgu o gwmpas yr ysgol ac yn dangos pob twll a chornel i'r darpar rieni newydd! Cafodd pawb gyfle i gwrdd â Harri Her sy'n ein hannog i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol ac roedd egwyddorion y 4 diben yn cael eu hesbonio i bawb gan y disgyblion. Yn ystod y bore cafodd pawb gyfle i weld ein strategaeth iaith newydd "Gloywi'r Groes" rydym yn defnyddio'n ddyddiol ar draws yr ysgol i uwch lefelu ein sgiliau llafar. Yn ogystal roeddem wedi arddangos ein prosiect "Dathlu Dysgu" ac esbonio sut mae disgyblion blwyddyn 5/6 yn eu meysydd dysgu yn cynllunio ac yn arwain yr addysgeg yn annibynnol ar draws yr ysgol. Cafodd y darpar rieni gyfle i grwydro o gwmpas ein hardaloedd allanol tra'n gwrando ar y gerddoriaeth o'n seinyddion iard newydd! Diolch yn fawr i bawb wnaeth ymweld â ni a chofiwch i ddilyn hanes ein hysgol ar trydar://twitter.com/YGPenyGroes

*(gweler llun ar y clawr)*

# Ysgol Y Wern

**Achosion Da**

Roedd neuadd yr ysgol dan ei sang ar Ddiwrnod Plant Mewn Angen gyda phlant yn prynu a gwerthu cacennau. Codwyd £1433 yn ystod y diwrnod. Hoffai'r ysgol ddiolch i bawb am eu cyfraniad.



**Côr Ysgol y Wern**

Llongyfarchiadau mawr i'r côr am gyrraedd y 10 olaf yng nghystadleuaeth Carol yr Ŵyl eleni. Cyfansoddwyd y garol 'Rhannu Cariad' gan Mair Long a byddant yn ymddangos ar y teledu ar y 6ed o Ragfyr. Braf oedd cefnogi Bobath Cymru yn ei Ffair Nadolig yn Eglwys Ararat. Canodd y côr amrywiaeth o ganeuon a charolau. *(gweler llun ar y clawr)*

# Y Gymraeg yng Nghanol Caerdydd

## *Taith o'r Castell i Borth y De*

**E. Wyn James**

Dyma wahoddiad i chi fynd unwaith yn rhagor ar daith o gwmpas rhan o ganol dinas Caerdydd. Fel yn achos y daith gyntaf, ein bwriad fydd canolbwyntio'n arbennig ar fannau arwyddocaol o safbwynt y Gymraeg, ddoe a heddiw.

Cyhoeddwyd y daith gyntaf yn rhifyn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd o'r *Dinesydd*, sef rhifyn Awst 2018. Taith yng nghyffiniau Porth y Gorllewin oedd honno. Yn yr ail daith hon, dechreuwn eto ger y Castell, ond y tro hwn awn i lawr i Borth y De.

******

Cychwynnwn ar ochr orllewinol y castell, ger un o'r rhannau mwyaf trawiadol ohono, sef Tŵr y Cloc, y ffantasi neo-Gothig y mae ei ystafelloedd mor afrad o oludog a dychmyglon nes mynd â'ch gwynt. Cydweithiodd trydydd Ardalydd Bute (1847–1900) â'r pensaer William Burges (1827–81) ar brosiect uchelgeisiol i ailgodi Castell Caerdydd, ac yna Castell Coch, yn arddull yr Adfywiad Gothig, a'r cam cyntaf oedd codi Tŵr y Cloc rhwng 1869 ac 1873. Fel ei dad yr ail Ardalydd, roedd trydydd Ardalydd Bute yn gefnogol iawn i'r Gymraeg. Er enghraifft, yn ei anerchiad fel Llywydd y Dydd yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 1883, anogodd y Cymry i lynu wrth 'iaith eu tadau' a mynnu dysgu ei darllen a'i hysgrifennu yn ogystal â'i siarad; ac arweiniodd ei araith at sefydlu'r Gymdeithas yr Iaith Gymraeg gyntaf yn 1885, a'i nod o hybu defnyddio'r Gymraeg ym myd addysg.

******

Gyferbyn â'r Tŵr mae Heol Womanby. Cwblhawyd ein taith gyntaf ger y troad i mewn i'r stryd honno. Nodwyd bryd hynny mai yn nhafarn yr 'hen Gronnell' (y 'Globe', lle mae 'Elevens Bar & Grill' Gareth Bale erbyn hyn), sydd ar y chwith wrth ichi droi i mewn i Heol Womanby, y byddai Iolo Morganwg yn cyfarfod â'i gyd-feirdd yn y 18fed ganrif. Nodwyd hefyd fod y geiriau Cymraeg cyntaf i'w llefaru ar y radio wedi'u darlledu yn 1923 o'r adeilad sydd ar y dde, pan oedd hwnnw'n gartref i un o stiwdios y BBC. Ond y tro hwn, yn lle mynd heibio i'r troad, mentrwn i lawr y stryd gul honno.

Dyma un o strydoedd hynaf Caerdydd, a'i henw o bosibl o darddiad Sgandinafaidd, yn golygu 'cartref yr heliwr' neu 'cartref meistr y cŵn'. Fel y crybwyllwyd y tro diwethaf, tua hanner ffordd i lawr y stryd mae Clwb Ifor Bach, y clwb Cymraeg a agorwyd yn 1983 ac a enwyd ar ôl Ifor Bach, Arglwydd Senghennydd, a ymosododd yn llwyddiannus ar Gastell Caerdydd yn 1158. Mae'r stryd hon yn nodedig am ei cherddoriaeth fyw. Mae Clwb Ifor yn rhan allweddol o'r bwrlwm hwn ac yn gyfrifol erbyn hyn am drefnu 'Sŵn', yr ŵyl gerddoriaeth aml-leoliad gyntaf ym Mhrydain y tu allan i Lundain, a sefydlwyd gan Huw Stephens a John Rostron yn 2007.

Enw arall ar Heol Womanby ar un adeg oedd 'Red Cow Lane', ar ôl tafarn y 'Red Cow' – neu'r 'Fuwch' ar lafar yn y 18fed ganrif, oherwydd cawn ŵr o'r enw Thomas Morgan yn cofnodi iddo dderbyn arian yn 1731 gan 'Dic y Fuwch'. (Un o deulu bonheddig Coedygores, Llanedern, oedd y Thomas Morgan hwnnw, ac yn perthyn o bell i Forganiaid Tredegyr ac i Harri Morgan y môr-leidr o Lanrhymni.) Safai'r Fuwch Goch gyferbyn â safle Clwb Ifor Bach, ac am gyfnod yn y 19eg ganrif roedd yr ystafell fawr yng nghefn y dafarn yn weithdy gwneud telynau.

Bassett Jones ('Ieuan Delynor') oedd enw'r saer telynau. Ganed ef yn 1809 yn fferm Tre-hyl yn Sain Nicolas ym Mro Morgannwg i deulu o Fethodistiaid Calfinaidd. Symudodd i Gaerdydd yn 1824 ac yno y bu farw yn 1869, yn 18 Heol y Dug. Daeth i amlygrwydd fel saer telynau wedi iddo gael ei benodi'n wneuthurwr telynau swyddogol i Gymdeithas Cymreigyddion y Fenni yn yr 1830au. Roedd y gymdeithas honno, dan arweiniad Thomas Price ('Carnhuanawc') ac Arglwyddes Llanofer, yn frwd dros hyrwyddo'r delyn deires, a gwnaeth Bassett Jones nifer ohonynt i'w rhoi'n wobrau yn Eisteddfodau'r Fenni. Gwnaeth delyn deires gywrain iawn ar gyfer Tywysog Cymru yn 1843, a gwnaeth un hefyd ar gyfer yr Arddangosfa Fawr yn y Palas Grisial yn Llundain yn 1851. Mae nifer o'i delynau wedi goroesi mewn amgueddfeydd, gan gynnwys Sain Ffagan.

Bassett Jones a saernïodd y gadair fawr a ddefnyddiwyd yn yr eisteddfod daleithiol a gynhaliwyd dan nawdd ail Ardalydd Bute yng Nghastell Caerdydd yn Awst 1834. Yn ogystal â hybu'r delyn deires, rhan arall o genhadaeth wladgarol Arglwyddes Llanofer oedd hyrwyddo'r 'wisg Gymreig', ac yn yr eisteddfod honno yng Nghaerdydd enillodd wobr am draethawd ar 'the advantages resulting from the preservation of the Welsh language, and national costumes of Wales', traethawd a gyhoeddwyd yn llyfryn yn 1836 ac a oedd ar gael o argraffty William Bird yn Heol y Dug.



***Arglwyddes Llanofer (1802–96)***

******

Rhwng 1696 ac 1889 bu Heol Womanby yn gartref i un o gynulleidfaoedd Anghydffurfiol hynaf Cymru. Yn 1633 penodwyd William Erbery (1604–54), brodor o'r Rhath, yn ficer Eglwys Fair, Caerdydd; ond bron yn syth aeth yn benben rhyngddo ag awdurdodau'r eglwys wladol oherwydd ei Biwritaniaeth, a'r diwedd fu iddo gael ei droi allan o'i ficeriaeth yn 1638. Pobl oedd y Piwritaniaid a oedd yn anfodlon ar agweddau ar drefn yr eglwys wladol (sef Eglwys Loegr, neu'r Eglwys Anglicanaidd) ac a oedd am ei diwygio mewn amryw ffyrdd. Aeth yn dyndra cynyddol rhyngddynt a'r awdurdodau, gwrthdaro a arweiniodd yn y pen draw at ryfel cartref yn yr 1640au. (Mae'n werth nodi, gyda llaw, fod Oliver Cromwell, a ddaeth yn bennaeth y wladwriaeth yn sgil y rhyfela hwnnw, yn disgyn oddi wrth deulu o Williamsiaid o'r Eglwys Newydd a

Llanisien; honnai Iolo Morganwg ei fod yntau'n perthyn i'r un teulu.)

Er bod disgwyl yr adeg honno i bawb fod yn aelod o Eglwys Loegr, un o ganlyniadau'r gwrthdaro hwn oedd gweld nifer gynyddol o bobl yn 'anghydffurfio' oddi wrth yr eglwys wladol o ran cydwybod a ffurfio cynulleidfaoedd a oedd yn annibynnol arni – dyna ddechreuadau enwadau megis yr Annibynwyr, y Cynulleidfaolwyr, y Presbyteriaid a'r Bedyddwyr.

Mae'n amlwg fod gan William Erbery nifer sylweddol o gefnogwyr yng Nghaerdydd. Yn wir, awgrymodd un llyfrwerthwr yn 1637 y gallai werthu 600 copi o lyfr arfaethedig gan Erbery yng Nghaerdydd yn unig. Yn fuan ar ôl iddo golli ei ficeriaeth aeth Erbery a'i gyfeillion ati i ffurfio eglwys Anghydffurfiol yng Nghaerdydd, un o'r cynharaf yng Nghymru. Yn 1696 cafodd yr eglwys honno dir lle mae Maes Parcio Heol Womanby erbyn hyn i godi capel arno – capel Trinity – ac yn y stryd honno y bu cartref y gynulleidfa nes iddi symud i adeilad ar gornel Heol Ddwyreiniol y Bont-faen a Heol Theobald yn niwedd Oes Victoria.

Gweinidog yr achos yn Trinity, Heol Womanby, o 1734 hyd ei farw oedd David Williams (1709–84) o Bwll-y-pant ger Caerffili. Roedd yn athro dylanwadol iawn, ac ymhlith ei ddisgyblion roedd dau o radicaliaid Cymreig amlycaf cyfnod y Chwyldro Ffrengig, sef David Williams (1738–1816), Waunwaelod, a Morgan John Rhys (1760–1804).

Gweinidog eglwys Trinity rhwng 1849 ac 1852 oedd y bardd o Geredigion, John James ('Iago Emlyn'; 1800–79). Roedd yn frwd o blaid y Gymraeg – 'Clyt-iaith, ffôl araith, ffiloreg—peiswyn/ Heb bwysau yw'r Saesneg', meddai mewn un englyn – a gwelir ei gariad at y Gymraeg a'i diwylliant yn glir yn yr anerchiad ar yr iaith Gymraeg a draddododd i'r 'Cambrian Archaeological Society' yng Nghaerdydd ym mis Medi 1849, er mai simsan a dweud y lleiaf yw ei esboniadau ar darddiad geiriau, megis pan ddywed fod yr enw 'Wrecsam' yn dod o 'Gwraig Sam', er na wyddai, meddai, pwy oedd Sam na'i wraig!

******

Mae Heol Womanby yn ymuno â Heol y Cei ger y fan y mae'r stryd honno'n ymuno â Heol y Porth (*Westgate Street*). O gyfnod y Rhufeiniaid ymlaen dadlwythai llongau eu nwyddau yn yr ardal hon, oherwydd hyd nes i wely afon Taf gael ei newid yng nghanol y 19eg ganrif, llifai'r afon i lawr lle y mae Heol y Porth heddiw. Yng nghornel y maes parcio aml-lawr sydd ar gyffordd Heol y Cei a Heol y Porth, gosodwyd briciau ar y llawr i nodi lleoliad rhan o hen walydd y cei, a ddymchwelwyd yn 1850.

******

O droi i'r dde a chadw at ochr ddwyreiniol Heol y Porth, down at adeilad pwysig yn hanes cyhoeddi yn y Gymraeg, sef 16 Heol y Porth (sy'n rhan o 'Westgate House' bellach). Daeth Hughes a'i Fab, Wrecsam, yn un o brif gyhoeddwyr y Gymraeg o ganol y 19eg ganrif ymlaen; ond rhwng 1940 ac 1956 yn Heol y Porth yng Nghaerdydd ac nid yn Wrecsam yr oedd prif swyddfa'r tŷ cyhoeddi hwnnw.

Thomas Bassett (1889–1956), brodor o Bentyrch, oedd rheolwr Hughes a'i Fab yr adeg honno. Yn ŵr ifanc, bu'n gweithio i'r 'Cwmni Cyhoeddi Addysgol' yng Nghaerdydd (cwmni a brynwyd gan Hughes a'i Fab yn 1927). Yna, yn ystod y Rhyfel Mawr, bu'n wrthynebydd cydwybodol ac yn gyd-garcharor â Gwenallt yn Dartmoor. Pan symudodd o Wrecsam i agor y swyddfa yng Nghaerdydd, aeth Thomas Bassett i fyw i 22 Lôn Isa, Rhiwbina. Fel mae'n digwydd, yn y stryd nesaf, Lôn-y-dail, flynyddoedd ynghynt, bu ef yn rhan o'r trafodaethau yng nghartref yr Athro W. J. Gruffydd a esgorodd ar gyhoeddi'r cylchgrawn dylanwadol *Y Llenor* yn 1922. Roedd Thomas Bassett yn grefftwr medrus, ac ef sy'n gyfrifol yn fwy na neb am ddiwyg glân, graenus y cylchgrawn hwnnw.

Dychwelodd pencadlys Hughes a'i Fab i Gaerdydd unwaith eto yn 1983, pan brynwyd y cwmni gan S4C, yn rhannol er mwyn cael yr hawlfraint ar Wil Cwac Cwac a chymeriadau eraill *Llyfr Mawr y Plant*.

******

Awn i ben gogleddol Heol y Porth gan droi i'r chwith ac anelu at Bont Caerdydd. Agorwyd y bont bresennol yn 1931, ond mae'n cynnwys rhannau o'r bont flaenorol a godwyd yn 1859 gan Daniel Thomas (tad Barwn Pontypridd), a oedd yn aelod yn eglwys y Tabernacl ar yr Ais. Wedi croesi'r bont, trown ar ein hunion i'r chwith a dilyn llwybr hamddenol Taith Taf i lawr glan orllewinol yr afon ar hyd Arglawdd Fitzhamon nes cyrraedd y bont nesaf, a fydd yn mynd â ni'n ôl i brysurdeb canol y ddinas, i'r ardal gerllaw'r Orsaf Ganolog.

Wrth ymlwybro i lawr yr arglawdd (*embankment*) – a enwyd ar ôl Robert Fitzhamon (m. 1107), y Norman a goncrodd Forgannwg yn niwedd yr 11eg ganrif gan ymsefydlu yng Nghastell Caerdydd – cawn olygfeydd o'r ddwy stadiwm enwog ar ochr draw'r afon, sef Parc yr Arfau ac yna'r stadiwm anferth a godwyd ar gyfer Cwpan Rygbi'r Byd yn 1999. Byddai'r bardd R. Williams Parry wrth ei fodd yn mynd i wylio gemau rygbi rhyngwladol ar Barc yr Arfau. Yn Chwefror 1914 yr aeth yno am y tro cyntaf, pan oedd yn athro yn y Barri, a gweld Cymru'n curo'r Alban; ac meddai: 'Cenedlaetholwr Cymreig fyth oddi ar hynny.'

******

Tua hanner ffordd rhwng y ddwy bont, gallwn droi i'r dde i Despenser Street wrth y 'Riverbank Hotel' gynt, a newidiwyd i'r bar a'r hostel 'Nos Da' wedi i Sion Llewelyn (mab y darlledwr Gwyn Llewelyn ac ŵyr i'r cyn-Archdderwydd Gwyndaf) ei brynu yn 2005. Enwyd yr holl strydoedd yn yr ardal hon ar ôl Arglwyddi Morgannwg, ac yn achos Despenser Street, fe'i henwyd ar ôl y teulu gwaedlyd a berchnogai Gastell Caerdydd yn y 14eg ganrif. Bu un ohonynt, Hugh Despenser yr Ieuengaf, yn gyfrifol am ddienyddio Llywelyn Bren, gorwyr Ifor Bach, yn y castell yn 1318.

'Despenser Street' yw enw un o ganeuon Gwenno Saunders (g. 1981), am mai yno y bu'n byw pan oedd yn blentyn. Ei thad yw'r bardd Cernyweg, Tim Saunders, a magwyd Gwenno a'i chwaer Ani, sydd hefyd yn gantores bop, trwy gyfrwng y Gernyweg yn ogystal â'r Gymraeg.

Wrth gerdded i lawr Despenser Street i gyfeiriad Clare Street (a enwyd ar ôl rhagflaenwyr teulu Despenser yng Nghastell Caerdydd), yr ail droad ar y chwith yw Beauchamp Street (a enwyd ar ôl eu holynwyr yn y castell: gelwir un o dyrau'r castell yn Dŵr Beauchamp ar ôl Richard Beauchamp, Iarll Warwick, a ailadeiladodd rannau o Gastell Caerdydd wedi i fyddin Owain Glyndŵr anrheithio'r dref yn 1404). Yn 29 Beauchamp Street yr oedd y llenor o'r Wladfa, Eluned Morgan (1870–1938), yn byw yn 1904 pan gyhoeddwyd ei chyfrol hyfryd *Dringo'r Andes*.

******

O barhau i lawr Arglawdd Fitzhamon, wrth agosáu at y bont nesaf, awn drwy'r ardal lle y cynhelir marchnad ffermwyr awyr-agored bob bore Sul, sef Marchnad Glanyrafon, un o hoff gyrchfannau'r cyn-Brif Weinidog, Rhodri Morgan (1939–2017). Ar y gornel chwith wrth gyrraedd y bont, mae pedwar cerflun a wnaed yn 2006 i gynrychioli gwahanol fathau o sbeisys i'w rhoi ar fwydydd, a hynny'n adlewyrchu'r ffaith fod yr ardal honno'n un o rannau mwyaf amlethnig y ddinas.

******


Croeswn y bont a cherdded ar hyd Wood Street i gyfeiriad Heol Eglwys Fair (**nid** Heol y Santes Fair!). Newidiwyd cwrs yr afon i'w wely presennol yng nghanol y 19eg ganrif gan y peiriannydd enwog, Isambard Kingdom Brunel, er mwyn creu ardal yn rhydd o berygl llifogydd yng nghanol Caerdydd ar gyfer gorsaf i'r rheilffordd newydd yr oedd yn ei chodi ar draws de Cymru (rheilffordd a ddaeth maes o law yn rhan o'r 'Great Western Railway').

O ddiwedd yr 1850au ymlaen codwyd clwstwr o strydoedd 'dosbarth gweithiol' i'r gogledd o'r orsaf (Gorsaf Ganolog Caerdydd erbyn heddiw), ar y tir a enillwyd trwy newid cwrs yr afon. Enwyd yr ardal yn 'Temperance Town' am fod perchennog y tir, Edward Wood, wedi gosod amod nad oedd tafarn i fod yno na siopau yn gwerthu diodydd meddwol.

Rhedai Wood Street trwy ganol 'Temperance Town', o'r gorllewin i'r dwyrain, ac yn torri ar ei thraws, o'r gogledd i'r de, roedd pedair stryd o dai teras. Enw'r un fwyaf gorllewinol oedd 'Eisteddfod Street' (a enwyd ar ôl eisteddfod a gynhaliwyd gerllaw mewn pafiliwn enfawr yn 1858; 'Scott Road' yw'r enw ar ran ogleddol y stryd honno erbyn hyn), a 'Havelock Street' oedd enw'r un fwyaf dwyreiniol. Chwalwyd y strydoedd hynny yn 1937 ac ailddatblygwyd yr ardal maes o law i gynnwys, ymhlith pethau eraill, orsaf bysiau o flaen gorsaf y rheilffordd a swyddfeydd newydd yn Havelock Street ar gyfer cwmni'r 'Western Mail & Echo' – 'Thomson House' – a agorwyd yn swyddogol yn 1961 ac a ddymchwelyd yn 2008 pan symudodd y swyddfeydd (bellach dan yr enw 'Media Wales') i 6 Park Street gerllaw. Bu sawl un a ddaeth yn amlwg yn y bywyd Cymraeg yn gweithio fel newyddiadurwyr yn 'Thomson House', yn eu plith Geraint Talfan Davies a Gwyn Llewelyn, a aeth wedyn i fyd darlledu, a Meic Stephens, a aeth yn Gyfarwyddwr Llenyddiaeth Cyngor Celfyddydau Cymru.

Erbyn hyn mae'r ardal hon mewn cyfnod arall o ailddatblygu mawr, gyda chanolfan ddarlledu BBC Cymru (a fydd yn gartref hefyd i wasanaethau technolegol S4C) ac Ysgol Newyddiaduraeth, y Cyfryngau a Diwylliant Prifysgol Caerdydd yn symud i adeiladau newydd yn y Sgwâr Canolog rhwng Wood Street a'r Orsaf Ganolog. Ac o gofio hefyd am bresenoldeb swyddfeydd Media Wales gerllaw, dyma droi'r ardal hon o Gaerdydd yn 'Media City' Cymreig – byd gwahanol iawn i'r hen 'Temperance Town'.

******



Un y gadawodd tlodi affwysol 'Temperance Town' argraff ddofn arno a chryfhau ei argyhoeddiadau radicalaidd oedd y bardd a'r llenor Glyn Jones (1905–95). Brodor o Ferthyr Tudful ydoedd, ond symudodd y teulu i Gaerdydd pan oedd yn hyfforddi i fod yn athro. Cafodd swydd mewn ysgol yn Wood Street yn 1925 ac yng Nghaerdydd y bu'n byw ar hyd ei oes fel oedolyn. Erbyn 1940 roedd wedi symud i Ysgol Allensbank, ond collodd ei swydd y flwyddyn honno am iddo gofrestru'n wrthwynebydd cydwybodol. Roedd yn gyfaill i Dylan Thomas ac yn un amlwg yn y blodeuo a fu ar lenyddiaeth Saesneg Cymru yng nghanol yr 20fed ganrif. Ond er mai Saesneg oedd cyfrwng ei ysgrifennu creadigol, yn rhannol dan ddylanwad cyfeillion yng nghapel yr Annibynwyr Cymraeg ym Minny Street, lle'r oedd yn aelod, dechreuodd astudio llenyddiaeth Gymraeg a dod yn gefnogwr brwd i'r bywyd diwylliannol Cymraeg.

******

Wrth fynd ar yr ochr chwith ar hyd Wood Street i gyfeiriad Heol Eglwys Fair, ar ôl croesi Havelock Street, down at 'South Gate House'. Am dros ganrif dyma safle 'Wood Street Congregational Chapel', adeilad anferth a ddaliai tua 3,000 o bobl. Er mai achos Saesneg ydoedd, cynhelid eisteddfodau yn bur gyson yno ar un adeg. Yno, er enghraifft, y cynhaliwyd Eisteddfod Nadolig Cymrodorion Caerdydd yn 1886 a chyfres o eisteddfodau blynyddol ar Ŵyl San Steffan o 1898 ymlaen. Dymchwelwyd yr adeilad yn 1973, a chodi 'South Gate House' yn 1979 – ond fel y gwelwn, nid dyna safle Porth y De!

******

O edrych ar draws yr heol o 'South Gate House', gellir gweld ar dalcen orllewinol tafarn y 'Prince of Wales' amlinelliad o adeilad eglwys, sy'n dynodi'r ffaith fod yr adeilad presennol wedi'i godi'n rhannol ar safle Eglwys Fair, prif eglwys Caerdydd cyn i'w sylfeini gael eu niweidio'n ddifrifol gan lifogydd mawr yn 1607. Yn sgil hynny, trosglwyddyd y gwasanaethau'n gynyddol i Eglwys Ieuan Fedyddiwr, a oedd yn wreiddiol yn gapel anwes i Eglwys Fair, ac erbyn 1678 roedd to Eglwys Fair wedi cwympo.

Fel y nodwyd eisoes, William Erbery oedd ficer Eglwys Fair o 1633 nes ei droi allan yn 1638 oherwydd ei Biwritaniaeth. Curad Erbery yn 1633 oedd Walter Cradoc, ond yn 1634 fe drowyd ef allan o'i guradiaeth oherwydd ei Biwritaniaeth. Byddai Cradoc yn dod maes o law yn un o brif arweinwyr y Piwritaniaid yng Nghymru, ac ef oedd cyfrwng tröedigaeth y llenor gwych Morgan Llwyd.

Brodor o Gaerdydd a brofodd dröedigaeth dan bregethu William Erbery pan oedd yn 15 mlwydd oed oedd Christopher Love (1618–51). Ceisiodd ei dad ei rwystro rhag mynd i wrando ar Erbery trwy ei gloi yn ystafell ucha'r tŷ, ond llwyddodd i ddianc trwy ddringo trwy'r ffenestr a llithro i lawr rhaff. Fel Erbery a Chradoc, daeth Christopher Love i amlygrwydd fel awdur ac arweinydd Piwritanaidd, ond yn 33 oed fe'i dienyddiwyd ger Tŵr Llundain ar gyhuddiad o deyrnfradwriaeth.

******

Bu tafarn y 'Prince of Wales' yn theatr ar un adeg, ac mae'n dal i edrych fel theatr ar y tu mewn. Pan ymwelodd yr Eisteddfod Genedlaethol â Chaerdydd yn 1938, defnyddid y theatr honno ar gyfer y cystadlaethau perfformio dramâu ac i lwyfannu cynhyrchiad o gyfieithiad T. Gwynn Jones o *Macbeth* gan Shakespeare a chynhyrchiad o *Hen Wlad Fy Nhadau*, cyfieithiad J. Kitchener Davies o ddrama gan y nofelydd a'r dramodydd, Jack Jones (1884–1970) – brodor o Ferthyr Tudful a symudodd i Riwbina yn 1930 ac a siaradai Gymraeg, er mai yn Saesneg yr ysgrifennai ei weithiau creadigol.

Yr un a chwaraeodd ran 'y fam' yn nrama Jack Jones adeg Eisteddfod 1938 oedd Rachel Howell Thomas (1905–95), a symudodd o Gwm Tawe i Riwbina yn yr 1930au ac a fu'n aelod amlwg yng nghapel Minny Street am flynyddoedd. Ymhen dwy flynedd, yn 1940, byddai'n chwarae'r 'fam Gymreig' yn y ffilm *The Proud Valley* wrth ochr Paul Robeson, gyda Jack Jones yntau'n chwarae rhan yn y ffilm ac yn rhannol gyfrifol am y sgript.

******

Wrth gyrraedd Heol Eglwys Fair – neu 'Plwyf Mair' fel y gelwid y stryd gan hen siaradwyr Cymraeg brodorol yr ardal – trown i'r dde a mynd yn ein blaen i waelod y stryd; a dyma gyrraedd pen ein taith, oherwydd roedd hen Borth y De – Porth Llongau, neu 'Moor Gate' – yng nghyffiniau gwesty'r Great Western.

Am flynyddoedd lawer roedd swyddfeydd y *Western Mail* yn yr adeilad yn Heol Eglwys Fair sydd y drws nesaf i westy'r Great Western. Yno yr oedd swyddfeydd y papur yn ystod golygyddiaeth hir Syr William Davies o 1901 ymlaen. Brodor o Dalyllychau oedd William Davies (1863–1935). Hoffai farddoniaeth Crwys a Wil Ifan, a byddai'r ddau yn dod i seiadu yn ei swyddfa. Gofalai'n bersonol am y golofn 'Wales Day by Day', a chynhwysai ynddi gerddi gan feirdd Cymreig, yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac yn eu plith nifer gan R. Williams Parry. Derbyniai'r beirdd dâl am eu gwaith, a dyna arwyddocâd y llinell 'Ariannwr yr awenydd' yn englyn Williams Parry i William Davies.

Bu nifer o Gymry llengar yn gweithio yn swyddfeydd y *Western Mail* yn ystod golygyddiaeth William Davies, gan gynnwys Edward Thomas (yr 'Idriswyn' a arloesodd ysgrifennu am rygbi yn y Gymraeg); y clerigwr a'r bardd W. Eilir Evans; Owen Picton Davies (tad Enid, gwraig Syr Thomas Parry); John Eilian (a aeth o'r *Western Mail* yn 1927 i olygu'r *Times of Mesopotamia* yn Irac); a Sam Jones (a fu wedyn yn Bennaeth y BBC ym Mangor); ac yn swyddfeydd y *Western Mail*, ac yna yn 25 Roath Court Place, cartref ei gyd-weithiwr Picton Davies, y cwblhaodd Caradog Prichard (ar y funud olaf!) y bryddest a enillodd iddo Goron Eisteddfod Genedlaethol Treorci yn 1928.

Ffrwyth comisiwn gan Gymrodorion Caerdydd, cymdeithas Gymraeg hynaf y ddinas, yw'r daith hon. Diolchaf i Dr Dylan Foster Evans am ddarllen drafft o'r testun ac am ei sylwadau

# CERDYN POST O BARCELONA

## Lowri Haf Cooke yn holi Osian Llwyd Jones

***Mae Osian Llwyd Jones, sy'n 34 oed, yn rheolwr ym maes technoleg. Mae e'n byw gyda'i bartner Efthymios Vasilakis yn ninas Barcelona.***



**Un o ble ydych chi'n wreiddiol?**
Un o Donteg ydw i, er yn enedigol o Wrecsam. Treuliais fy mhlentyndod cynnar yn y Gogledd a'r Gorllewin. Er i mi gael fy magu ar gyrion Caerdydd ac yn mynd yno'n aml ar benwythnosau gyda theulu a ffrindiau ysgol, atgofion o fy nyddiau Prifysgol sydd gen i'n bennaf o'r ddinas. Byw yn ardal Cathays, nosweithiau allan blêr, cwrdd â phobl o bob rhan o Gymru a'r byd - ac astudio wrth gwrs!

**Pryd a sut glaniaist ti yn Barcelona, a beth wyt ti'n wneud yno?**
Ar ôl gorffen fy ngradd ym Mhrifysgol Caerdydd, penderfynais fentro ymhellach, a byw yn Siapan am flwyddyn. Dychwelais wedi hynny i astudio am fy ôl-radd yn Warwick, cyn byw a gweithio am bron i ddegawd yn Llundain. Mae Llundain yn ddinas wych a dwi'n hynod ddiolchgar am yr holl brofiadau cefais yno. Ond wedi degawd o fod mewn dinas fawr (iawn) roedd chwant newid byd arna i ac Efthymios, i rywle gyda diwylliant ac iaith wahanol. Rhywle oedd yn cynnig yr un lefel o egni a 'bywyd' ond oedd llai o ran maint a llawer llai o ran straen. Roedd symud i rywle gwell o ran tywydd yn ffactor bwysig i'r ddau ohonom hefyd (mae fy mhartner o wlad Groeg!) ac roedd hyn, ynghyd ag ansicrwydd Brexit yn dwysáu'r awydd i symud. Felly pan ddaeth cyfle am drosglwyddiad mewnol i'r swyddfa yn Barcelona, neidiais at y cyfle. Dwi nawr yn gweithio fel PO (Project Owner) mewn cwmni technoleg yn gweithio gyda 'Data Mawr' yng nghanol y ddinas ac yn byw yn ardal Sants.

**Disgrifia dy ddiwrnod delfrydol yn Barcelona**
Un o'r pethau dwi wedi ail-ddarganfod ers symud yma yw pleserau seiclo; yn bennaf oherwydd y cyfuniad rhwng y tywydd gwych, bod Barcelona yn gymharol fflat a bod y ddinas wedi buddsoddi dros €32m mewn lonydd ar gyfer beicwyr. Mae unrhyw ddiwrnod perffaith i mi felly yn cynnwys mynd yn hamddenol ar gefn beic; does dim ffordd gwell o grwydro a darganfod llefydd newydd. Y strydoedd y byddwn yn hoffi pasio trwyddynt ydy Enric Granados yn ardal Eixample, Parlament yn ardal Sant Antoni a lonydd cul El Born ac El Raval. Mae *brunch* yn ddewis anodd rhwng Caravelle, Federal neu Brunch & Cake. Wedi hynny, lawr tuag at un o'r traethau, er enghraifft, Bogatell i nofio yn y môr, darllen a chymryd siesta. Dychwelyd o'r traeth wedyn trwy ardal Poblenou am *orxata* neu *llet merengada* yn El Tio Che (un o'r llefydd enwocaf am *orxata*, sef 'llaeth' o blanhigion, fel cnau almwn). Fin nos mae bwytai Benzina neu Arume ar frig fy rhestr, yn ogystal ag ymlwybro trwy Passeig del Born neu lonyddwch sgwâr Placa de Sant Felip Neri. Yn hwyrach, fiesta tan yr oriau mân!

**Pa 3 lle yno y byddet ti'n annog i rywun o Gaerdydd a'r Fro eu profi, er mwyn cael blas go dda o'r ddinas?**
I unrhyw ymwelydd mae'n debyg y bydd ardal Gotico rywle ar y rhestr. Yn anffodus mae hyn yn golygu bod ymysg y miloedd o dwristiaid eraill sydd â'r un syniad! Felly os oes angen seibiant o'r torfeydd yn yr ardal honno, byddwn yn awgrymu Bodega La Palma sydd ar gornel stryd tawel ac yn cynnig bwyd lleol syml ond gwych, gyda hufen iâ gorau'r ddinas gerllaw yn Swiit i ddilyn.
Cynhelir marchnad greadigol Palo Alto bob yn ail benwythnos ac mae'n cynnig cerddoriaeth, celf, dillad a chrefftau lleol mewn lleoliad bendigedig. Pris mynediad ydy €3 - gwell prynu ar-lein o flaen llaw er mwyn osgoi aros.
Mentrwch allan o'r ddinas am ddiwrnod; mae Catalwnia yn eithriadol o hardd. Mae mynydd Montserrat yn hawdd cyrraedd gyda thrên o orsaf Espanya, ac yn cyfuno golygfeydd trawiadol ynghyd â diwylliant a hanes lleol. Os oes mwy o amser ac awydd antur arnoch, mae mynd i ganŵio yng ngheunant Mont-Rebei yn un o uchafbwyntiau Catalwnia i mi yn bersonol. Ewch cyn i weddill y byd ei ddarganfod!

**Beth yw'r pryd bwyd gorau gest di yno?**
Fettuccine gyda draenog y mor (*sea bass*) a lemwn yn Benzina.

**Ble mae'r olygfa orau yno?**
Does dim dwywaith amdani; Bunkers del Carmel pan fydd yr haul yn machlud. Anhygoel!

**Beth wyt ti'n ei golli fwyaf am Gaerdydd?**
Teulu a ffrindiau, a'r parciau gwyrdd di-ddiwedd.

## NADOLIG CYNNAR I BLANT CAERDYDD YNG NGŴYL FFILM INTO

Dangosiad arbennig o *Pluen Eira*
yn Amgueddfa Sain Ffagan.

Eleni yw'r tro cyntaf i'r elusen drefnu dangosiadiadau arbennig cyfrwng Cymraeg fel rhan o'r Ŵyl.

Yn ôl Non Stevens, pennaeth Into Ffilm Cymru: Pwrpas yr Ŵyl yw rhoi blas i athrawon, myfyrwyr a rhyngddeiliad o bŵer ffilm. Ry'n ni'n mynd ati i hyrwyddo pŵer ffilm fel arf addysgiadol i bobl ifanc 5-19 mlwydd oed.

Dywed Amanda Rees, Comisiynydd Cynnwys S4C: Ffilm deuluol, hyfryd yw *Pluen Eira* fydd yn siwr o ddod â gwên 'r wyneb a deigryn i'r llygad.

Bydd y ffilm yn cael ei dangos ar S4C ar ddiwrnod Nadolig am 6.30 yr hwyr.

# NEWYDDION O'R EGLWYSI

## EGLWYS DEWI SANT

**Ymweliad â Mosg**

Tachwedd 1 Mosg Dar-ul-Isra oedd cyrchfan Cymdeithas Nos Iau Eglwys Dewi Sant a chafwyd croeso cynnes gan Tanviar ac Amanda. Rhoddasant gyflwyniad cryno i'r ffydd Islamaidd ac i waith y Mosg. Roedd yn noson o ddysgu a rhannu gwerthfawr. Diolch i Rhys Jones am drefnu a chydlynu'r ymweliad.

**Cymdeithas St Willibrord**

Dydd Sadwrn, Tachwedd 3 cyfarfu Cymdeithas St Willibrord yn Eglwys Dewi Sant am ei chynhadledd flynyddol. Mae'r gymdeithas yn hyrwyddo perthynas rhwng yr eglwysi Anglicanaidd a'r Hen Gatholigion, sef y Catholigion a ymneilltuodd o Eglwys Rufain yn dilyn mabwysiad yr eglwys honno o Athrawiaeth Anffaeledigrwydd y Pab yn 1870. Mae eu heglwysi i'w gweld yn bennaf, ond nid yn unig, yn yr Iseldiroedd a'r Almaen.

Yn y bore gweinyddwyd Y Cymun Bendigaid a defnyddiwyd Cymraeg, Saesneg, Almaeneg, Thagalogeg (iaith Ynysoedd y Philipiniau), Iseldireg a Gwyddeleg yn y gwasanaeth. Yn y prynhawn cafwyd darlith gan yr Hybarch Meurig Llwyd, Archddiacon Ffrainc a Monaco, a chyn Ficer Eglwys Dewi Sant. Braf oedd cael ei groesawu i Gaerdydd unwaith eto.

**Gwasanaeth Teuluol**

Dydd Sul,Tachwedd 11 cynhaliwyd Gwasanaeth Teuluol. Yn ystod y gwasanaeth cynhaliwyd gweithred o gofio a nodi canmlwyddiant diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Cadoediad. Gosodwyd torch o babi coch ar y gofeb sydd yn yr eglwys. Yr anthem, a ganwyd yn deimladwy iawn gan y côr, oedd *Y Kontakion* – alaw'r Eglwysi Uniongred. Yn y cefndir, ar sgrîn, tra 'roedd y côr yn canu, dangoswyd cyflwyniad gweledol o ddelweddau dwys o Frwydr Coed Mametz, Gorffennaf 7 – 12ed 1916, a'r safle heddiw.

**Coffi a Chlonc**

Cynhaliwyd y bore coffi misol i'r dysgwyr fore Sadwrn, Tachwedd 17 yn neuadd yr eglwys.

**Taith Gerdded**

Diolch i Shân Morgan am drefnu taith gerdded ddydd Iau, Tachwedd 22. Roedd yn daith o ryw 4 milltir a'r man cychwyn oedd Castell Aberogwr.


*ymweliad Eglwys Dewi Sant â'r Mosg*

## BETHEL, PENARTH

Ar hyn o bryd rydym yn poeni am ein brawd Harri Watters, yn ei waeledd gartref yn dilyn cyfnod yn yr ysbyty. Gweddiwn am adferiad a fydd yn ei alluogi i fod gyda ni yn yr oedfa, yn ôl ei arfer ffyddlon.

Dros benwythnos Tachwedd 4 bu ein gweinidog yn Efrog Newydd yn rhedeg marathon. Aeth gyda'n bendith wrth fentro cyflawni'r gamp yn enw Nyrsys Macmillan. Llwyddodd yn gorfforol ac yn ariannol, gyda'r gronfa ar ei hennill o swm oddeutu £3500. Da was!

Cynhaliwyd ein Ffair Aeaf ddydd Sadwrn Tachwedd 10. Gwnaed elw sylweddol a phrofi awyrgylch cymdeithasol braf yn Neuadd Eglwys Bedyddiedig Stanwell Road.

Ddydd Llun, Tachwedd 29 cynhaliwyd 'priodas' ym Methel dan arweiniad y gweinidog. Archie ac Alys oedd y pâr dethol, gyda disgyblion eraill Blwyddyn 2 Ysgol Penygarth yn cyflawni dyletswyddau priodol. Roedd y capel dan ei sang gan fod rhieni'r disgyblion wedi dod i gydrannu. Roedd y cyfan yn rhan o gynllun Addysg Grefyddol yr ysgol.

Ddydd Sul, Tachwedd 4 roeddem dan arweiniad meddylgar Dr Phil Ellis. Cawsom ein cyfareddu gan ei gyflwyniad dramatig, dychmygus yn seiliedig ar Luc 18, 35 – Luc 19,10, gyda'r emynau 18, 296, 294,493 yn ategu.

Yn oedfa'r bore Tachwedd 18 fe'n goleuwyd yn heriol gan Geraint Rees, gyda'i ddawn wrth ddefnyddio technoleg fodern i gyflwyno'i genadwri yn ychwanegiad sylweddol at ddwysedd y neges.

Yn oedfa'r hwyr Tachwedd 18 aeth ein gweinidog â ni yn ôl at gapel ei fagwraeth, Soar, Llanbadarn Fawr lle bu ar ymweliad yn ddiweddar. Cofiai'r cyfnod pan oedd yn mynd ar orchymyn ei famgu i dalu hanner coron am hawl ar 'gôr y teulu'; bellach prin iawn yw'r ffyddloniaid. Ar y profiad hwn, aeth ein myfyrdod tuag at ystyried hanfod eglwys gyda chynifer o gapeli'n cau. Ni ellwch ddisgwyl dyfodol gwell os ydych yn hiraethu am y gorffennol.

Fe'n tywyswyd yn oedfa'r bore ar Dachwedd 25 gan ein cyfaill Euryn Ogwen. Cawsom ysgytwad wrth feddwl o'r newydd am gyfraniad damhegion at ein tyfiant ysbrydol. Rhoddwyd sylw i un ddameg o'r Hen Destament (Llyfr Ruth) a dwy o'r Newydd (Yr Heuwr a'r Samariad Trugarog). Cawsom ddameg newydd ar gyfer ein dyddiau ni. Atgyfnerthwyd y neges yn yr emynau 384, 738, 291, 819.

## BETHEL, RHIWBEINA

Roedd Sul olaf mis Hydref yn ddiwrnod arbennig pan fedyddiwyd Cadi Gwen, merch Lowri a Gareth Lewis, a chwaer fach Ffion. Roedd y gwasanaeth yng ngofal y gweinidog, y Parchedig Evan Morgan. Mae Cadi Gwen a Ffion yn or-wyresau i Eifion Hopwood fu'n aelod ffyddlon ym Methel am nifer o flynyddoedd.

Cydymdeimlwn â Tom Smith ar golli ei frawd yn ystod yr wythnosau diwethaf.

Ar Sul y Cofio ein gwenidog oedd yn arwain y gwasanaeth ac yn dilyn aeth nifer o'r aelodau am ginio dydd Sul.

Ar Sul olaf mis Tachwedd roedd cyfle i groesawu Arweinydd yr Ardal, y Parchedig Ian Morris, Pontarddulais.

Mae côr y capel yn brysur yn paratoi ar gyfer gwasanaeth y Nadolig a fydd yng ngofal yr oedolion ar Ragfyr 16. Y Sul cyn hynny, Rhagfyr 9 bydd gwasanaeth Nadolig y plant yng ngofal y gweinidog.

Ar noswyl Nadolig cynhelir gwasanaeth ym Methel am 11 yr hwyr dan ofal Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina.

## SALEM, TREGANNA

**Bedydd**

Bedyddiwyd Cadi, merch Teleri ac Aled ar Tachwedd 4. Llongyfarchiadau mawr i chi fel teulu.

**Penwythnos y Bobl Ifanc**

Treuliodd criw o dros 40 o bobl ifanc benwythnos yn Llanmadog, Gŵyr yn ystod Tachwedd, yn mwynhau cymdeithasu yn y ganolfan yno ac ar y traeth gogoneddus, a gan fwynhau yn LC2 ddydd Sadwrn. Hyfryd cael trawsdoriad o bobl ifanc o'r ddinas yn mynychu a diolch yn fawr i bawb a drefnodd y penwythnos.

**Adran yr Urdd, Salem**

Aeth yr Adran i ymweld â Gwersyll yr Urdd yn y bae ac fe gafwyd sesiwn ddawns yng nghwmni Trystan ap Owen yn ystod y mis.

**Noson Acwtig**

Trefnwyd noson acwstig yn festri Salem ar Tachwedd 23 i godi arian tuag at ein cynllun gyda'r di-gartref. Codwyd dros £600, diolch i bawb am gefnogi. Diolch i Cleif Harpwood, Geraint Cynan, Catsgam, yn ogystal â'r gerddorfa Ukelele am ein diddanu.

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn yn fawr â Heulyn a Meleri a'r teulu ar ôl i Heulyn golli ei dad yn ddiweddar.

**Gwasanaethau'r Nadolig**

Croeso mawr i chi ymuno â ni dros yr ŵyl, dyma rai dyddiadau pwysig: 16 Rhagfyr: Gwasanaeth yr Ysgol Sul 10.30am: Gwasanaeth y Goleuni 6.00pm 23 Rhagfyr: Canu carolau yng nghwmni grŵp pres y tu allan i Salem 24 Rhagfyr: Cymun Noswyl Nadolig 11.30pm Dydd Nadolig: Gwasanaeth teuluol. Dewch i ddangos eich teganau i Evan! 9.30am

## MINNY STREET

www.minnystreet.org @MinnyStreet
Y Parchedig Owain Llyr Evans

Yn ystod cyfnod yr Adfent a thu hwnt estynnwn groeso i bawb, 'o'r ieuengaf i'r hynaf,' i'n cyfarfodydd ar y Sul (10.30 a 18.00) ac yn ystod yr wythnos.

Bydd Ysgol Sul ar yr 2il a Chymundeb yn yr hwyr. Cawn Oedfa Foreol Gynnar am 9.30 ar y 9fed dan arweiniad y Gweinidog ac yna, yn dilyn yr Oedfa Foreol (a fydd am 10.30 fel arfer), cynhaliwn "Dewch a Phrynwch" (Cynnyrch Cartref Nadolig) yn y Festri er budd Apêl Madagascar. Gwasanaeth Naw Llith a Charol fydd am 18.00 nos Sul y 9fed yng ngofal Glyn Jones a chyfeillion.

Am 17.00 nos Sul yr 16eg bydd Dathliad Nadolig yr Ifanc a'r Ifanc eu hysbryd gyda Pharti Nadolig (i bawb) yn dilyn.

Y Parchg Menna Brown, ein cyd-aelod, fydd yn arwain ein gwasanaeth am 10.30 30 Rhagfyr.

Bydd Babimini ddydd Gwener y 7fed a'r 21ain (9.45 - 11.15); Parti Nadolig PIMS ar y 3ydd (19.00 - 20.30) a Llynyddwch yng nghaffi Terra Nova am 10.00 ar y 14eg, cyfle am baned a thrafodaeth ar bennod o lyfr Elfed ap Nefydd Roberts: Dehongli'r Damhegion. Dewch i ymuno â'r Gymdeithas nos Fawrth, Rhagfyr 11eg am Noson Nadoligaidd yng nghwmni Huw Foulkes a'i ffrindiau. Cywyddaid fydd yn y Festri nos Lun 17eg (19.30 - 20.30).

Cofiwch archebu ymlaen llaw i fwynhau Koinônia am 12.00 Rhagfyr 5ed ac am 19.30 ar yr 16eg.

Am 23.30 ar y 24ain bydd Gwasanaeth Noswyl Nadolig dan arweiniad ein Gweinidog a Dydd Nadolig byddwn yn ymuno â chyfeillion Eglwys y Crwys am 10.00 y bore, gyda'n Gweinidog yn pregethu.

Ionawr 6ed am 10.30 bydd Cymundeb ac am 14.00 byddwn yn Dathlu'r Plygain yn Eglwys Sant Teilo, Sain Ffagan dan arweiniad y Parchedig Ddr R Alun Evans, Helen Evans a Rhiannon Evans.

Nadolig bendithiol i chi gyd.

## EGLWYS Y CRWYS

Cydymdeimlir yn ddwys â Mrs. Eirlys Jones yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd yn Y Rhyl. Mae Eirlys bellach wedi ymgartrefu yng Nghartref Gofal Heol Don yn Yr Eglwysnewydd a chyflwynwn ein dymuniadau gorau iddi a'r teulu.

Cynhaliwyd dau gyfarfod hynod ddiddorol yn ystod mis Tachwedd pryd y cafwyd sgyrsiau diddorol gan Eira Jones ar ei chysylltiadau â Madagascar ac yna gan Peter Gillard ar 'Deithio yn Affrica'. Diolch iddynt am eu cyfraniadau. Mae'r aelodau yn edrych ymlaen at eu Swper Nadolig yng Nghlwb Golff Caerdydd ar Ragfyr 3. Diolch i'r Parch Lona Roberts a David Jones am y trefniadau.

Roedd noson 'Cogydd y Crwys', o dan nawdd Y Gymdeithas, yn hynod lwyddiannus. Enillwyd adran y plant a'r ieuenctid gan Ffion Harker a Mari Velios a choronwyd Siân Evans yn 'Gogydd y Crwys' am 2018. Llongyfarchiadau mawr i bawb a gymerodd ran. Beirniadwyd y gystadleuaeth gan Aled a Delyth Huw Thomas a diolch iddynt am eu gwaith.

Rydym yn edrych ymlaen at Wasanaethau'r Nadolig a'r Rhagfyr. Bydd oedfa'r bore o dan ofal yr Ysgol Sul ac oedfa'r hwyr o dan ofal Y Gymdeithas. Diolch i bawb fydd ynglŷn â'r trefniadau. Fe gynhelir Cyfarfod Dechrau Blwyddyn o dan nawdd y Gymdeithas nos Wener Ionawr 4. Diolch i swyddogion ac aelodau'r pwyllgor am eu gwaith.

Gyda ni ar drothwy Blwyddyn Newydd beth am ymuno â ni yn Y Crwys lle mae croeso bob amser yn eich disgwyl. Bydd Y Gweinidog yn ein harwain ar Ionawr 6 a 20; y Parch Dafydd Andrew Jones Ionawr 13 a'r Parch Lona Roberts Ionawr 27.

***pobl ifanc Salem yn mwynhau yn Llanmadog ym mis Tachwedd***



## TABERNACL, YR AIS

**Genedigaeth**

Rhannwn lawenydd y teulu cyfan ar enedigaeth Wil Hardy, brawd bach i Jac, ac ail blentyn Geraint a Llinos. Mae ei fam-gu a'i hen fam-gu, sef Janet Wilkinson a Virginia Thomas, yn aelodau yn y Tabernacl.

**Cydnabod gwaith Emyr Jenkins.**

Bu BAFTA Cymru yn anrhydeddu llawer o bobl ar eu cyfraniad i'r maes hwn eleni, ac yn ei plith nodwyd safon gwaith Emyr. Dyma glod haeddiannol a llongyfarchwn ef yn llawen.

**Taith pobl ifanc y Tabernacl i Lundain**

Ar Hydref 7 teithiodd criw o bobl ifanc o Eglwys y Tabernacl, Caerdydd i Eglwys Gymraeg Canol Llundain i gynnal oedfa o ddiolchgarwch yno. Cawsom groeso mawr a lletygarwch hael ac roedd cyfle i fwynhau cwmni aelodau'r Eglwys yn Llundain a hefyd ymweld â rhai o fannau twristaidd Llundain.

**Cymdeithas Nos Fawrth**

Achlysur cyntaf mis Tachwedd oedd Noson Caws a Gwin yng nghartref Ann Williams. Er y tywydd annymunol, daeth llu o bobl i fwynhau noson wych o gymdeithasu. Hannah Roberts oedd wedi'n diddanu yn ail gyfarfod y mis gyda'i hatgofion a storïau oedd yn gysylltiedig â'r Nadolig - noson wych. Ymweliad ag Eglwys Santes Fair yn Stryd Bute oedd digwyddiad ola'r mis.

**Cymdeithas y Chwiorydd**

Bu'n fis prysur i'r chwiorydd - Cwrdd Gweddi Chwiorydd y byd, pnawn o grefftau, Sian E Thomas yn sôn am Ganmlwyddiant Cymdeithas Ambiwlans Sant Ioan yng Nghymru, gan gloi gyda rhaglen Nadoligaidd yng ngofal Catrin Lloyd a Nicola Baker.

**Datganiad Organ Joshua Xerri**

Daeth dros hanner cant o bobl i'r datganiad hwn, gan gynnwys nifer o ymwelwyr a oedd yn digwydd cerdded heibio i'r capel. Diolch am sylwadau hirben a diddorol gan Josh am bob darn, ond yn neilltuol diolch am awr o gerddoriaeth a oedd yn gofiadwy am ei hamrywiaeth, ei hathrylith a'l chyfoeth.



Taith pobl ifanc y Tabernacl i Lundain

## EBENESER

**Llongyfarchiadau...**

...i Lowri Tudur ar ddathlu ei phen-blwydd yn 21 oed ar Dachwedd 14

...i Beti Pierce, nain Lowri a mam Vikki Tudur ar ddathlu ei phen-blwydd ar Dachwedd 11. Carreg filltir arbennig i'r ddwy!


**Cleifion**

Mae tair o'n haelodau, Delor Wedlake, Mary Lewis a Gill Lewis, yn gwella yn dilyn llawdriniaethau diweddar. Mae Dr. Iwan Morris, hefyd wedi cael triniaeth ar y galon. Braf oedd ei weld yn ôl yng ngwasanaeth y bore ar Dachwedd 25. Dymunwn adferiad llwyr i'r pedwar wrth iddynt gryfhau.

**Menter newydd**

Cynhaliwyd cyfarfod i blant yn Ebeneser ar wahân i'r oedfa arferol ar fore Sul, Tachwedd 4, ble cafwyd hwyl gyda chrefftau gêmau, stori a chacen. Ar y bore hwnnw daeth 16 o blant i fwynhau am awr gyfan. A do bu lot o gynnwrf a hwyl. Cynhaliwyd ail gyfarfod ar Ragfyr 2 o dan y teitl Cacen, Crefft a Gêmau. Croeso i blant a'u teuluoedd. Am fwy o wybodaeth anfonwch e-bost i ebeneser@btinternet.com

**Atgofion o'r gorffennol**



Ricky Carter

Dyna braf oedd cael cyfarfod ar noson y Gymdeithas, nos Fawrth, Tachwedd 13, i hel atgofion drwy hen luniau o Gaerdydd. Daeth criw da at ei gilydd i weld hen luniau drwy gymorth taflunydd. Diolch i Richard Carter am noson hynod ddiddorol.

**Colli aelod.**

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Gwenda Spriggs ar ddydd Gwener, Tachwedd 23, yn Ysbyty'r Waun. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Peter ei mab. Cymeriad gwylaidd oedd yn ffrind mynwesol i bawb ohonom yn Ebeneser.

**Bocsys OCC**

Eleni, eto, cawsom y fraint o gefnogi elusen Operation Christmas Child drwy anfon swp o focsys yn llawn anrhegion i blant o bob oed.


## CYNGOR EGLWYSI CYMRAEG CAERDYDD

Cynhaliwyd cyfarfod yn Y Crwys nos Iau, 8 Tachwedd. Croesawyd Sarah Morris, Llandysul, gan y llywydd Parch Lona Roberts. Cyflwyniad diddorol Sarah oedd 'Agor y Llyfr.'

Yn dilyn cynhaliwyd cwrdd blynyddol i ddwsin. Etholwyd Parchedigion Denzil John yn ysgrifennydd a Gwilym Dafydd yn llywydd.

Nodwyd bod cefnogaeth i gyfarfodydd 2018 yn siomedig ac mae posibilrwydd taw 2019 fydd y flwyddyn olaf os na welir mwy o gefnogaeth a brwdfrydedd o gyfeiriad yr wyth eglwys sy'n perthyn i'r Cyngor.

## Rhif: 187





### Ar Draws

1. 'A chlywir cân angylion glân
 Yn llifo drwy y nen' (BD) (4,4)
5. Ai'r brig yw'r lle i ddechrau casglu olion pysgod aur? (4)
7. Anrhydedd yw ail-ysgrifennu triban (6)
9. Lle am drafferth llenyddol (6)
10. '----- ----- noethlwm
 Cwynai'r rhewynt oer' (cyf SBJ) )5,5)
12. Buddugwr ar y blaen er niwed i'r llanc wedi'r ras (6)
14. 'Y ----- ddaeth o Bosra
 Y deddfwr gynt ar Seina'(EI) (6)
15. Mae'n ddigri chwynu llethr di-chwyn (10)
19. Gwahanu drwy addysg aruthrol (6)
20. Praidd yn rhoi lle i dad ar goll (6)
21. '----- a drefnwyd cyn bod amser
 I gael dihangfa o ddrygau'r ddraig' (AG) (4)
22. 'Sain Hosanna i ----- -----
 Iesu beunydd fyddo'n ben' (anad) (3,5)

### I Lawr

2. Teitl aderyn Llywelyn (4)
3. Awr fach yn dal dim gwamal (5)
4. Cywasgu'r ystyriol yn sedd (5)
5. Yn y meddwl mae brwsio dail yn llanw'r côl (7)
6. Yn perarogli yn dawel ers 60 munud mae hanner y llu (8)
8. Gweld yr addfwyn mewn crwtyn erchyll (5)
11. 'Gweld yr anfeidrol ddwyfol Fod
 ----- ----- natur dyn' (WW) (2,6)
13. Ai addfwyn yw taflu Adda i'r lli? (7)
14. Torri canol cyllell euraid i gael incwm (5)
16. Af ar ôl y dichellus ar yn ail, dyna'r rhai ifancaf (5)
17. Meddyg a gradd bellach mewn perfformiad ar lwyfan (5)
18. 'Heb le yn y -----, heb aelwyd, heb wely
 Nadolig fel hynny gadd Hwn' (anad) (4)




**Enillydd Croesair Rhif 185**
**Zorah Evans, Yr Eglwys Newydd**

**Atebion Croesair Rhif 185**

**Ar Draws:** 1. Anwyd inni yw 7. Darganfu 8. Ddaeth 9. Desg 11. Priodfab 13. Aberth 14. Baswr 16. Dysgedig 18. Cnau 21. Heol 22. Heneiddio 23. Bob trugaredd

**I Lawr:**
1. Ar dy draed 2. Wyres 3. Dial 4. Niferu 5. Yn ddi-dranc 6. Hela 10. Gwrthgilio 12. Barrug oedd 15. Finegr 17. Ywen 19. Noddwr 20 Llesg

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 5 Chwefror, 2019
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbina, Caerdydd, CF14 6AN

# Eisteddfod Caerdydd

Ers llwyddiant Eisteddfod Caerdydd mae nifer o bobl yn y ddinas wedi bod yn gofyn pam nad oes eisteddfod leol yng Nghaerdydd? Yn ôl y sôn fe fu Eisteddfod leol yn cael ei chynnal yng Nghaerdydd yn y gorffennol, ond mae honno wedi hen ddiflannu. Yn sgil llwyddiant Eisteddfod Caerdydd 2018, a'r chwant i gynnal eisteddfod yn flynyddol ar ryw ffurf, mae criw o bobl wedi dod at ei gilydd i sefydlu eisteddfod leol yng Nghaerdydd. Y bwriad yw cynnal yr eisteddfod gyntaf ym mis Ionawr 2020 - i roi digon o amser i godi arian a rhoi trefn ar bopeth!

Un o'r camau cyntaf wrth sefydlu eisteddfod (fel gyda phopeth) yw sicrhau cyllid. Felly os oes diddordeb gyda chi fel unigolyn, sefydliad neu fusnes mewn rhoi cyfraniad i Eisteddfod Caerdydd, gallwch e-bostio eisteddfod.caerdydd@gmail.com. Gallwch hefyd gysylltu gyda ni os oes diddordeb gyda chi mewn helpu i drefnu'r eisteddfod, neu helpu ar y diwrnod.

Mae llawer o drefniadau yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd, o drafod testunau a chystadlaethau posibl i drafod lleoliad ac wrth gwrs hyrwyddo'r digwyddiad. Mae tudalen facebook gyda ni erbyn hyn, felly chwiliwch am Eisteddfod Caerdydd ar Facebook, ac fe gewch chi'r wybodaeth ddiweddaraf am y trefniadau yn fan honno.

Fe fydd digwyddiad lansio i'r eisteddfod yn cael ei gynnal ar 18 Ionawr 2019, felly cadwch lygad allan am fwy o fanylion yn nes at yr amser.

# Pobol y Rhigwm

Ar ôl egwyl o ddeufis mae Pobol y Rhigwm yn ôl – gyda thasg arbennig ar gyfer y cyfnod rhwng y Nadolig a'r Calan. Mwynhewch yr Ŵyl, ac edrychwn ymlaen at dderbyn eich cynigion. Bydd y feirniadaeth gan Emyr Davies yn llawn yn rhifyn Chwefror.

Y dasg a osodwyd i'r rhigymwyr yn rhifyn mis Medi (rhif 17) oedd brawddeg ar y gair TERESA. Daeth cannoedd o ymdrechion i law, ond does dim gofod i gyhoeddi mwy nag un ymgais yn unig, sef gwaith *Pwydipwy*.

**Treuliodd ef rai eiliadau'n syllu arni.**

Llwyddodd i lunio brawddeg ramadegol gywir, sy'n swnio fel brawddeg agoriadol nofel ramantaidd. Nid yw'n dweud pwy yw'r *'ef'* na phwy yw'r *'hi'* y mae'n syllu arni, ond mae cynildeb yn beth da. Mae *Pwydipwy* yn llawn haeddu'r wobr gyntaf a'r clod a ddaw yn ei sgil.

Y dasg nesaf i'r rhigymwyr (rhif 18) yw gorffen limrig, gan wybod y bydd rhigymwyr Y Dinesydd yn ysu am rywbeth i'w wneud wedi'r Ŵyl. Rhaid cwblhau limrig gan gynnwys y llinell **'Ar ôl bwyta gormod o dwrci'**.

Cofiwch fod pump o linellau mewn limrig a'i fod, fel arfer, yn cynnwys rhywfaint o ddoniolwch.

Yn ôl yr arfer, anfonwch eich cynigion at: db.jame@ntlworld.com erbyn **7 Ionawr**.

**Enillydd tasg rhif 17 yw**
**Val Scott, Yr Eglwys Newydd**

# Gair gan Matt Spry – Dysgwr y Flwyddyn



Mae 2018 bron wedi dod i ben ac mae'r Nadolig yn agosáu. Bydd rhai pobl wedi dechrau meddwl am addunedau blwyddyn newydd. Beth am wneud addunedau blwyddyn newydd ynglŷn â'r Gymraeg?

Os dych chi'n rhugl yn y Gymraeg beth am wneud adduned i wneud mwy i helpu dysgwyr? Gallech chi ymuno â'r cynllun Siarad sy'n paru dysgwyr â siaradwyr rhugl er mwyn rhoi'r cyfle i ddysgwyr ymarfer sgwrsio yn Gymraeg a magu hyder. Gallech chi ddechrau mynychu sesiynau dysgu anffurfiol ar gyfer dysgwyr sy'n ffordd arall o helpu dysgwyr ymarfer eu Cymraeg a datblygu fel siaradwyr Cymraeg. Beth am drefnu digwyddiad Cymraeg yn eich ardal a gwahodd dysgwyr ac efallai pobl ddi-Gymraeg er mwyn eu cyflwyno i'r iaith a'r diwylliant Cymraeg. Gallech chi wneud yr ymdrech i ddod i adnabod dysgwyr sy'n byw yn eich ardal a'u cyflwyno i bobl eraill dych chi'n eu nabod yn eich ardal sy'n siarad Cymraeg – byddai mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r iaith yn y gymuned pe baen nhw'n dod i nabod siaradwyr Cymraeg yn eu hardaloedd. Beth am wirfoddoli i helpu ffoaduriaid a cheiswyr lloches i ddysgu Cymraeg?

Os dych chi'n dysgu Cymraeg beth am wneud adduned i wrando ar Radio Cymru neu wylio S4C yn fwy aml? Gallech chi wneud adduned i ddarllen mwy yn Gymraeg – nofelau a chylchgronau fel Lingo Newydd a Golwg. Gallech chi ymuno â'r cynllun Siarad sy'n paru dysgwyr â siaradwyr rhugl er mwyn cael y cyfle i gwrdd â rhywun i ymarfer eich Cymraeg. Gallech chi wneud adduned i fynd i fwy o'r sesiynau dysgu anffurfiol o gwmpas y ddinas. Os oes gennych chi ddiddordeb mewn rhywbeth e.e. chwaraeon, dawnsio, garddio, cerdded, canu – beth am chwilio am glwb sy'n darparu'r gweithgarwch yn Gymraeg? Mae gan Menter Caerdydd lot o wybodaeth am hyn. Gallech chi ddechrau mynd i fwy o ddigwyddiadau Cymraeg. Beth am ddechrau defnyddio mwy o wasanaethau a busnesau sy'n darparu gwasanaethau yn Gymraeg – mae'n ffordd wych i ymarfer eich Cymraeg a byddwch chi'n cefnogi busnesau a gwasanaethau Cymraeg eu hiaith. Gallech chi drio annog ffrindiau di-Gymraeg i roi cynnig ar ddysgu Cymraeg. Gallech chi wneud adduned i wirfoddoli yn Tafwyl 2019.

Beth am wneud adduned blwyddyn newydd i ddechrau pob sgwrs yn Gymraeg? Cewch chi'ch synnu at faint o bobl fydd yn ymateb yn Gymraeg, sy'n gallu arwain at sgwrsio yn Gymraeg yn naturiol yn y gymuned, yn y siopau, ar y bws neu ar y trên, mewn caffis, tafarndai a bwytai neu yn y gwaith. Byddwch chi'n cyfrannu at normaleiddio Cymraeg yn cael ei chlywed a'i siarad yng Nghaerdydd.

Beth am wneud adduned blwyddyn newydd i ymaelodi â Chymdeithas yr Iaith Gymraeg er mwyn eu helpu gyda'u hymgyrchoedd dros yr iaith?

Dw i'n siŵr bod gennych chi lawer o syniadau eraill! Yn y bôn, beth am wneud addunedau blwyddyn newydd sy'n cyfrannu at ffyniant y Gymraeg ym Mhrifddinas Cymru!

Nadolig Hapus a Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd! O bydded i'r hen iaith barhau!

Cynllun Siarad https://dysgucymraeg.cymru/dysgu/siarad/
Menter Caerdydd https://mentercaerdydd.org/
Cymdeithas yr Iaith Gymraeg https://cymdeithas.cymru/

# Cwmni'r Dysgwyr

*"Mae ein clwb clonc yn Wenfo yn parhau i fynd o nerth i nerth."*

## Gwilym Dafydd



**Gair o'r Fro – Janet Tabor**



*Clwb Clonc Pugh's Wenfo*

Mae ein clwb clonc yn Wenfo yn parhau i fynd o nerth i nerth. Rydyn ni'n cyfarfod bob bore Llun am 11 o'r gloch yn y caffi yng nghanolfan garddio Pugh's. Mae tua 12 ohonon ni i gyd gyda'n gilydd, a'r rhan fwyaf o wythnosau mae o leiaf 8 yn dod. Yn y flwyddyn newydd dyn ni'n bwriadu dechrau sesiwn misol gyda'r nos. Mae pobl eraill eisiau dod ond maen nhw'n gweithio. Mae ein grŵp yn cynnwys dysgwyr o bob lefel a siaradwyr Cymraeg rhugl. Mae rhai ohonon ni nawr yn mynychu gweithgareddau Cymraeg eraill yn Y Fro. Er engrhaifft, mae côr Cymraeg – Côr yr Ynys, yn cwrdd pob nos Sul yng nghapel Tabernacl y Barri, a hefyd y cyfarfodydd Cymrodorion misol.

**Anrheg Nadolig**

Sut fedrwch chi wneud rhywbeth bach i helpu'r Dinesydd? Mae gen i bron 300 copi o rifynau 2018 na werthwyd yn y siopau heb sôn am y rhifyn Eisteddfod sylweddol 40 tudalen. Croeso os dymunwch gael cyflenwad o 10 rhifyn eleni am £5 yn lle £10. Rhowch wên ar wyneb ein trysorydd Huw Roberts! Pan ddaw dyddiau o wynt a glaw, eira neu storm, dyma anrheg darllen delfrydol a phob llun mewn lliw ers dechrau'r flwyddyn. Cysylltwch gyda eirianagwilym@gmail.com

**Pen blwydd Hapus i'r Awr Hapus**

Roedd 15 yno yng Ngwesty Pentref Coryton, bore Llun, 19 Tachwedd am y drydedd wythnos yn olynol – anghofiais eu hatgoffa ein bod yn 17 oed. Sefydlwyd ar ddydd Llun 19 Tachwedd 2001.

Mae Barbara Morgan yno ers y cyfarfod cyntaf a daeth Mair Morgan a Liz a Mary Pantmawr yn fuan wedyn. Yn y cyfnod mwy diweddar croesawyd wynebau newydd: Ron Côr Meibion Pendyrys, Phil o Radur, Roy o Lanisien, Joan Rhiwbina, Carol Bryndrain ac eraill.

Rydym yn cyfarfod pob bore Llun o'r flwyddyn, 10.45 heb law ei bod yn ddydd Nadolig. Noswyl Nadolig yw hi eleni wrth gwrs!

**Teithiau cerdded gyda Frank Holloway**

Dewch i glywed straeon am hanes yr Hen Lyfrgell - un o adeiladau hynaf a mwyaf diddorol ein dinas. Taith gerdded hanesyddol o amgylch yr Hen Lyfrgell, yn cynnwys rhannau o'r adeilad sydd ddim fel rheol ar agor i'r cyhoedd. Does dim tâl a does dim angen bwcio - cwrdd ger mynedfa Amgueddfa Stori Caerdydd. Mae'r daith yn addas i ddysgwyr profiadol. Gwener cyntaf pob mis am 12.00, 7 Rhagfyr, 4 Ionawr a 1 Chwefror.

**Is-deitlau Cymraeg**

Mae llond bwrdd o ddysgwyr Cymraeg brwdfrydig yn cwrdd bob wythnos ar fore dydd Iau, 10-11, yn Snails, Rhiwbina a byddwn yn trafod pob math o bethau. Yn ddiweddar roeddem yn trafod y broblem o is-deitlau Cymraeg ar y teledu. Efallai bod rhai o ddarllenwyr y Dinesydd wedi cael trafferthion tebyg.

Mae nifer o raglenni diddorol ar S4C ond i ddysgwyr mae'n anodd dilyn popeth wrth wrando ar y sain yn unig. Mae wyth awr o is-deitlau bob dydd yn Gymraeg. Serch hynny, nid yw'n hawdd cael y gwasanaeth hwn. Golyga hyn gryn ddryswch i gwmnïau teledu sy ddim yn gyfarwydd â'r broblem. Nid yw'n hawdd cael y gwasanaeth yma. Beth yw'r ateb...?

*Isobel Carter*

**Clonc yn Tabernacl Yr Ais cyn Taith Heddwch**



Lansiwyd llyfryn Jon Gower 'Heddwch yn y Ddinas' yn ystod wythnos yr Eisteddfod ac ail-lansiad yn y Deml Heddwch nos Iau 15 Tachwedd. Wedi cyfle i sgwrsio yn festri Tabernacl fore Sadwrn 24 Tachwedd, aeth naw ohonom yn y glaw a galw heibio rhai o'r mannau a nodir yn y llyfryn cyn cwblhau'r daith yn yr Ardd a'r Deml Heddwch ym Mharc Cathays.

Tybiaf mai cyflwyniad awr a hanner oedd hwn i gyfoeth hanes 22 o fannau heddwch yng Nghaerdydd. Pan ddaw'r Gwanwyn beth am fynd draw i gapel Penrhiw yn Amgueddfa Werin Sain Ffagan, caffi Heddwch ar Broadway yn ardal Waunadda ac mae siop Caban Pontcanna yn y llyfryn hefyd. Wyddoch chi pam? Mae'r can tudalen yn ddwyieithog ac yn fargen am bum punt.

## Dyddiadur Deurodiwr Dŵad

Na phoenwch, chi hen ddarllenwyr parchus "**Dinesydd**" y 70au sy'n cynhyrfu o weld pennawd sy'n adlais (bron) o'r gorffennol. Nid Goronwy Jôs sy di dŵad yn ôl i'ch poenydio, i'ch gwawdio, i dynnu blewiach o'ch trwyna, a gneud hwyl ar ben eich yrban shîc, wrth iddo chwilio'n ofer am yr hen *New Ely*.

'Mond rhyw feiciwr bach diniwad yn dŵad nôl o dro i dro, i droedio, neu a deud y gwir, i ddeurodio hen lwybra a gweld be di be yn rhen Ga'rdydd ma wrth iddi groesawu Eisteddfod 2018.

**Eisteddfod sych**

Beicio ar Lwybr Taf oeddwn yng nghysgod ein Stadiwm 'Tywysogaethol', yn ceisio ffeindio'r ffordd orau i gyrraedd *Bay-Fest* pan ddeuai hwnnw ddechrau Awst. Byddai'n braf cael Steddfod sych rôl llanast corsydd Môn llynadd, meddyliais wrth bedalu.

Troiais i'r chwith, croesi pont Wood Street, yna ymlaen ar hyd ceunant dwfn o lôn – agen gul rhwng adeiladau gor-dal. Syllu'n syn yno ar y tyrau gwydr a metal a'r craeniau'n 'mestyn fry; tyllau gweigion, lle bu adeiladau, yn dir braenar ar gyfer y grawn-unnos o swyddfeydd sgleiniog; ac arwyddion a lluniau'r parwydydd yn datgan gogoniannau'r 'Sgwâr Canolog' newydd.




Fa'ma bydd pencadlys 'rhanbarthol' y BBC a swyddfa newydd diawlad y Dreth a'r Tollau (mae'n fwy ffasiynol na Llandaf a Llanisien!). Fa'ma bydd swyddfa Adran Waith a Phensiynau HMGov (pa waith, pa bensiwn, d'wch?). Fa'ma bydd bransh-offis bach Welsh-Offis Alun bach, (pa faner fydd o'n ei chodi ar do hwnnw, tybed?). Fa'ma bydd Ysgol Gyfathrebu a Newyddiadura Prifysgol Caerdydd (yn dysgu sdiwdants sut i ffêc-niwsio?). Fa'ma bydd prif swyddfeydd cwmnïau cyfreithiol mawrion Cymru (pobl oludog y blêm-n-clêm?). A bydd pawb yn brysur-rwydweithio yn y caffis a'r bariau crand sy'n siwr o flodeuo yno.

O ia, fa'ma hefyd bydd yr hwb/hyb/hub (dyna chi 'air ffasiynol y ganrif'), sef yr *Interchange* drafnidiol hiiiiir-ddisgwyliedig. Gair swanc 'di hwnnw am yr orsaf fysiau newydd fydd yn nyfnderoedd adeilad drws nesa i'r orsaf drenau. Uwch ei ben bydd tua 18 llawr o fflatiau – rhyw 300 ohonynt (neu 600 os ar gyfer sdiwdants) ac 8 llawr o swyddfeydd (neu, 'falla, mwy o fflatiau i fwy fyth o sdiwdants).

Bydd y Sgwâr yn ganolbwynt ac felly'n gyrchfan i filoedd o weithwyr bob dydd – rhai'n cerdded yno (**os** yn medru fforddio byw'n ddigon agos); rhai'n beicio yno (**os** bydd llwybrau beicio addas), rhai'n teithio yno mewn trên neu ar fws (**os** daw'r metro, a'r trydaneiddio a addawyd), rhai'n gyrru ceir yno (**os** goroesan nhw'r tagfeydd sy'n nadreddu yma o'r M4 a'r A470). Os am yrru'r Range Rover crand o'r Fro grandiach fyth, tân dani, roedd sôn mai mond 265 lle parcio sy 'na (a rheini i bobl y BBC!). Ond dwi'n iawn, diolch byth – maen nhw wedi cynyddu nifer y mannau parcio beic o'r 144 gwreiddiol i 500. Wele felly Sentral Sgwêr a'i Sentral Strît – heb **os**, dyma'r dyfodol. Ond os oes **os**, mi allai fod yn Gehenna o le. Hei lwc i'r cynllun, wir!

Dyma fydd trydydd 'corfforiad' y llecyn hwn. Rwy'n ddigon hen i gofio'r ail, ddiwedd yr 1950au – Empeiar-pŵl; caffi Asteys; Thomson House – swyddfa ac argraffdy newydd y Western Fail; siop gig Clem Thomas; a rhesi llochesi-aros-am-ddybl-decars yr orsaf fysiau agored o flaen gorsaf drên Cardiff General. Mae'r adeilad hardd hwnnw o'r 1930au, â 'Great Western Railway' wedi'i gerfio'n glir ar ei arwyneb calchfaen budr-wyn, rwan yn bitw o beth, ar goll yn ei gynefin nen-dyrog newydd.

Ond dim ond dolydd lleidiog y Taf oedd yma nes i Isambard Kingdom Brunel sythu a phontio'r afon wrth adeiladu'r South Wales Railway, a'r orsaf gyntaf, yn 1850. Rhoddodd hyn gyfle i'r Cyrnol Edward Wood ad-ennill y tir ac i Jacob Scott Matthews ei lesio a'i ddatblygu'n ardal o resdai gweithwyr. Oherwydd daliadau dirwestol y ddau, ni chaniatawyd tafarn na diod feddwol yno. Hon, felly, oedd '***Temperance Town'***. Yno, o gylch Wood Street, a'i Neuadd Ddirwest enfawr, Eglwys Dyfrig Sant a'r Ysgol Fwrdd, gorweddai tai a mân fusnesau strydoedd, Park, Havelock, Scott, Gough, ac **Eisteddfod**. Chwalwyd y slymiau hyn yn y 1930au, a'r rhai olaf i orfod ymadael yn 1937 oedd Mr a Mrs Henry Arthur Hannam, o 32 Eisteddfod Street.

I mi, ystyr pensaernïol 'Sgwâr' yw casglaid o adeiladau urddasol o gwmpas darn o dir agored, megis parc, tir glas neu fan cyfarfod. Meddyliwch am Trafalgar, Albert, San Marco, Loudoun (gynt), Tiananmen, Catalunya, a mwy. Yng ngwlad Groeg, yr Agora oedd canolbwynt bywyd ysbrydol, gwleidyddol, celfyddydol ac athletaidd y ddinas. Mae fama'n fwy o Times Square, yn ganolbwynt adeiladau busnes â llifeiriant dihysbydd o arian masnachu, rhenti, a threthi yn ei sgil, ac elw i'r datblygwyr a'r buddsodwyr.

Ond mae sôn am ryw glwt bach o dir sbâr yng nghanol yr holl adeiladau tal a allasai fod yn barc, pe gwelasai'r haul. Ac, os na, mae pwt bach arall o dir palmantog agored rhwng yr orsaf a phalas y BBC. Beth am sicrhau, Huw, Bòs Cyngor Caerdydd, fod enw hanesyddol, addas ar y llecyn, a'i alw'n '**Eisteddfa**'? Ac yn lle arddel yr enw di-ddychymyg 'Sgwâr Canolog', braf fyddai adfer enw gwreiddiol ac unigryw yr ardal i gydnabod ein hanes ac i ysgogi chwilfrydedd ymhlith ymwelwyr – mae 'na ryw dinc arbennig, dybia i, i '**Dre-dirwest**'.

***Olwyn ap Gron***

Yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni gwobrwywyd Olwyn ap Gron am gasgliad o erthyglau i bapur bro. *Y Dinesydd* oedd ganddo mewn golwg, a diolch iddo am fod yn fodlon i ni eu cyhoeddi. Diolch i'r Eisteddfod hefyd am ganiatâd i wneud hynny. Dyma'r olaf o'r tair a ymddangosodd yn y *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau* (gyda mân addasiadau mwy diweddar) – ond rydym yn falch o allu dweud y bydd rhagor o benodau o Ddyddiadur Deurodiwr Dŵad yn ymddangos yn y flwyddyn newydd.

# Y DIGWYDDIADUR

## Rhagfyr

**Llun, 10 Rhagfyr**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Cinio'r Nadolig yng Nghlwb Golff yr Eglwys Newydd.
**Mawrth, 11 Rhagfyr**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd. Bydd Beca Lyne-Pirkis yn ein diddanu gyda choginio'r Nadolig, yn neuadd Eglwys Fethodistaidd Cyncoed (ar y gornel rhwng Westminster Crescent a Heol Cyncoed), am 7.30pm. Croeso cynnes i bawb.
**Mercher, 12 Rhagfyr**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Gwasanaeth a The Parti Nadolig, gydag anerchiad gan y Parch. Ddr D. Hugh Matthews, yn festri Capel Minny Street am 1.00pm.
**Gwener, 14 Rhagfyr**
Cyngerdd a Chymanfa Garolau, gyda phencampwyr a chefnogwyr lleol Eisteddfod Caerdydd 2018 (sef Côr Hen Nodiant, Côr Merched Canna, Y Prifardd Catrin Dafydd, Charlotte Kwok, Rhisiart Arwel, Manon Ogwen a Llinos Haf), yn Eglwys Sant Pedr, Y Rhath, am 7.30pm. Arweinydd y Gymanfa Garolau: Delyth Medi. Mynediad trwy raglen wrth y drws: £5. Trefnwyd gan Ffrindiau'r Stafell Fyw, Caerdydd.
**Sadwrn, 15 Rhagfyr**
Menter Caerdydd. Bydd Siôn Corn yn galw heibio i'r Hen Lyfrgell ar yr Ais rhwng 10.30am a 12.30pm. Bydd ganddo lond sach o anrhegion a stori neu ddwy i'w rhannu gyda'i ffrindiau. Bydd hefyd waith crefft i'r rhai bach, mins peis i bawb a chyfle i ganu carolau. Pris: £4. I archebu lle: https://mentercaerdydd.org/product/miri-dolig/
**Llun, 24 Rhagfyr**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Gwasanaeth Canhwyllau a Charolau, yng nghapel Bethel, Maesyderi, am 11.00pm.
**Llun, 24 Rhagfyr**
Gwasanaeth Plygain yng Nghapel Penrhiw, Sain Ffagan, am 11.30pm. Dewch â channwyll ddiogel. Croeso i bawb.

## Ionawr

**Llun, 7 Ionawr**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, yng Ngwesty 'Rhif 10 Caerdydd' (Jolyons, gynt), 10 Ffordd y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ, am 7.00pm ar gyfer 7.30pm. Gwestai: Rhys ab Owen. Croeso i ymwelwyr o gylchoedd cinio eraill. Os am archebu pryd, dylid cysylltu â'r Ysgrifennydd, Ruth Davies, ar billd.d2@tiscali.co.uk neu ffonio 029-2221-1407 neu 07717-837470 yr wythnos cynt.
**Mawrth, 8 Ionawr**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd. Sgwrs gan Heddyr Gregory am Shelter Cymru, yn neuadd Eglwys Fethodistaidd Cyncoed (ar y gornel rhwng Westminster Crescent a Heol Cyncoed), am 7.30pm. Croeso.
**Mercher, 9 Ionawr**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Sgwrs gan y Parch. Glyn Tudwal Jones ar y testun 'O Gadair y Golygydd', yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.
**Sadwrn, 12 Ionawr**
Bore coffi rhwng 10.30 a 12.00 ar gyfer rhai sydd am ymarfer eu Cymraeg, yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays, CF24 4BX. Croeso i ddysgwyr ac i siaradwyr rhugl. Am 11.00am bydd yr Athro Christine James yn trafod y cerddi gan Catrin Dafydd a enillodd Goron Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd. Yr un amser bydd dosbarth Cymraeg ar gyfer dechreuwyr dan arweiniad Amanda Griffiths. Mynediad am ddim: croeso cynnes i bawb.
**Gwener, 18 Ionawr**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. Trafodaeth gan Mari Williams ar *Ysbryd yr Oes*, y nofel a enillodd iddi Wobr Goffa Daniel Owen yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd. Yn Ystafell 3.47, Adeilad John Percival, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, CF10 3EU, am 7.00pm. Croeso cynnes i bawb.
**Sadwrn, 19 Ionawr**
Coffi a chlonc i ddysgwyr yn Eglwys Dewi Sant, Cilgant Sant Andreas, Caerdydd, CF10 3DD, rhwng 10.30 a 12.00. Mae croeso i chi ddod am baned ac i sgwrsio.
**Llun, 21 Ionawr**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Noson gerddorol yng nghwmni disgyblion Ysgol Glantaf, yng Nghapel Bethel, Maesyderi, 7.30pm. Tâl mynediad: £5.
**Llun, 21 Ionawr**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd. Bydd Jason Williams (Prifysgol Abertawe) yn siarad ar y testun 'Salmonella i drin canser?' yn Ystafell 0.77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30pm. Croeso i bobl nad ydynt yn 'arbenigwyr' gwyddonol.
**Mercher, 23 Ionawr**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Sgwrs gan y Parch. Allan Pickard ar y testun 'Crwydro', yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.

## Chwefror

**Gwener, 1 Chwefror**
Cymrodorion Caerdydd. Bydd Catrin Stevens yn trafod Archif Menywod Cymru, yng Nghapel Salem, Treganna, CF5 1QF, am 7.30pm. Croeso cynnes i bawb. Ni chyfyngir y cyfarfodydd i aelodau yn unig. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch: 029-2056-2880.
**Llun, 4 Chwefror**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, yng Ngwesty 'Rhif 10 Caerdydd' (Jolyons, gynt), 10 Ffordd y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ, am 7.00pm ar gyfer 7.30pm. Gwestai: Elin Jones, AC (Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol). Croeso i ymwelwyr o gylchoedd cinio eraill. Os am archebu pryd, dylid cysylltu â'r Ysgrifennydd, Ruth Davies, ar billd.d2@tiscali.co.uk neu ffonio 029-2221-1407 neu 07717-837470 yr wythnos cynt.
**Mercher, 6 Chwefror**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Sgwrs gan Catherine Thomas (Y Bont-faen) ar y testun 'Unwaith Eto Gyda Ffrindiau', yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.
**Iau, 7 Chwefror**
Cylch Cinio Merched Caerdydd yng Nghlwb Golff Radur am 7.00 pm ar gyfer 7.30 pm. Gwraig wadd: Nia Evans (Bodlon). Croeso cynnes i bawb. Am fanylion pellach, cysylltwch â'r Llywydd, Carys Tudor Williams (07958265215 neu glyn.carys@btinternet.com).
**Iau, 7 Chwefror**
Trysorau'r Ffydd. Yr emynydd David Charles, Caerfyrddin, fydd dan sylw mewn cyfarfod yn y gyfres o dan arweiniad yr Athro E. Wyn James sy'n edrych ar rai o uchelfannau ein llenyddiaeth Gristnogol. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, ar gornel Harriet St a Rhymney St, Cathays, CF24 4BX, am 7.30pm. Mynediad am ddim: croeso cynnes i bawb.
**Sadwrn, 9 Chwefror**
Bore coffi rhwng 10.30 a 12.00 ar gyfer rhai sydd am ymarfer eu Cymraeg, yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays, CF24 4BX. Croeso i ddysgwyr ac i siaradwyr rhugl. Am 11.00am bydd Lynne Davies yn trafod yr ieithoedd Celtaidd. Yr un amser bydd dosbarth Cymraeg ar gyfer dechreuwyr dan arweiniad Amanda Griffiths. Mynediad am ddim: croeso cynnes i bawb.
**Mawrth, 12 Chwefror**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd. Bydd Cyril Jones yn siarad ar y testun, 'Menywod Fy Machgendod', yn neuadd Eglwys Fethodistaidd Cyncoed (ar y gornel rhwng Westminster Crescent a Heol Cyncoed), am 7.30pm. Croeso cynnes i bawb.
**Mercher, 13 Chwefror**
Cylch Cadwgan. Bydd Dr Rowland Wynne yn siarad ar y testun 'Gwell Dysg na Golud: Gwron Cwmsychbant', yn Y Ganolfan, Tabernacl, Yr Efail Isaf, am 8.00pm.

**I anfon gwybodaeth i'r Digwyddiadur**
**gweler manylion ar dud. 2**

# Bwytai Merch y Ddinas

*"ceir prydau poeth i lenwi'r bol ynghyd â thoreth o ddanteithion eraill"*



Lowri Haf Cooke

**Cegin Bodlon**

Pan oedd Nia Evans yn ferch fach, yn siop grydd a chyfrwyo (saddlery ) ei thad, roedd hi wrth ei bodd y tu ôl i'r til yn pwyso hoelion yn y glorian ar ran cwsmeriaid Tonypandy. Yna, a hithe'n 13 oed, symudodd ei rhieni 'nol i Shir Gâr, i agor Siop y Seld ar Heol y Brenin, Caerfyrddin. Gwerthwyd rhoddion, cyfarpar chwaraeon a nwyddau lledr, yn cynnwys bagiau Emy a Mulberry. Bob dydd Iau, pan oedd y siop ar gau, arferent deithio i Gaerdydd, neu i Lundain, i siopau fel Liberty, Heals a Habitat. Serch eu cefndir amaethyddol, roedd gan ei rhieni gryn chwaeth, a mae gan Gymru le i ddiolch iddynt am ysbrydoli Nia!

Wedi gyrfa fel athrawes, a magu'i meibion yn Llanarthne, dychwelodd Nia yn 2006 i fyd masnach pan sefydlodd Bodlon - ei chwmni rhoddion ar-lein arloesol. Ar ôl cyfnod yn cydweithio gyda'i chwaer, y cogydd a'r ymgynghorydd bwyd Nerys Howell, sylwodd Nia ar fwlch enfawr yn y farchnad am nwyddau cyfoes a chwaethus yn yr iaith Gymraeg. Roedd hi wedi laru ar holi cwmniau cardiau a rhoddion yn Llundain, a fynnai hysbysebu cynnyrch 'London, Paris, New York' a hyd yn oed 'Dulyn' a 'Chaeredin', a oedd ganddynt nwyddau i'r farchnad yng Nghymru, a derbyn ymatebion sarhaus drachefn. Ei hateb i hynny oedd rhoi ei chynlluniau ei hun ar waith, a chomisiynu gwaith serameg gan Keith Brymer Jones o Gaint, a Felicity Elena Haf, o Aberystwyth.



Tyfodd y cwmni o nerth i nerth, nes agor caffi yn yr Eglwys Newydd yn 2015, sydd wedi hen ennill ei blwyf erbyn hyn. Mae picio yno am baned fel profi 'Maes' yr Eisteddfod (mewn ffordd dda!) – gyda'r lle yn llawn Cymry Cymraeg. Dilynwyd hynny gan lwyddiant siop Bodlon yn yr Hen Lyfrgell yn 2016, wnaeth ateb y galw am siop gardiau a rhoddion Cymraeg yng nghanol y dre'. Ac yn awr, ers mis Medi, ceir trydedd gangen ddinesig i'w chwmni, wrth i Nia – a'i phartner Colin Gray o Capital Cuisine - agor caffi/bwyty Cegin Bodlon rhwng ardal Gabalfa, y Mynydd Bychan / Y Waun.

Bu'n chwilota am hir am leoliad delfrydol cyn canfod gofod ar heol a brofodd gryn adfywiad yn y blynyddoedd diwethaf. Siop gyfarpar chwaraeon Sportsgear a fu yno tan yn ddiweddar, ar ganol Stryd yr Eglwys Newydd, nid nepell o fwytai cŵl fel Cocorico, The Pot, Got Beef, The Brass Beetle a Society Standard. Dyma hefyd oedd yr union stryd yr arferai Nia ymweld gyda'i mam, bob Ionawr adeg sêl siop ddodrefn Maskreys, nid nepell o ble saif Cant a Mil Vintage erbyn hyn.

Mae gofod dwbl Cegin Bodlon yn eang, gan olygu bod yno ddigon o le i anadlu dros ginio hamddenol, cyn prynu cynnyrch Cymreig o safon. Yn wahanol felly i'r caffi, ceir prydau poeth i lenwi'r bol ar gynnig amser cinio, ynghyd â thoreth o ddanteithion eraill. Es i yno am y tro cyntaf am ginio ar ddiwedd mis Tachwedd, a phrofi gwledd i godi'r galon! A hithe'n tresio bwrw tu allan, roedd y cawl pwmpen cnau menyn a pherlysiau Thai yn berffaith â bara surdoes ffres. Ces i ddetholiad o saladau blasus ar y cyd â'r cawl, tra cafodd fy nhad lond platiad o fwyd poeth. Cafodd flas bach o bob dim - gan gynnwys y cyri corbwmpen a chnau coco, chilli pupur a chig eidion, Stroganoff a reis Pilau. Ag yntau'n cael blas ar seigiau figanaidd ar hyn o bryd, bydd y saladau maethlon yn bendant at ei ddant. Ond tynnwyd ei lygaid hefyd gan rolyn selsig ffenigl a sesame cegin Bodlon ei hun – a chawsom baned o de a Mins Pei Frangipane Bodlon, oedd yn hyfryd iawn.

Ar y silffoedd, roedd llu o nwyddau fyddai'n addas fel rhoddion Nadolig gan gynnwys dewis helaeth o Jins Cymreig. Yn eu plith, jin Gŵyr, blas Pinwydd, a wompyn o botel Jin Talog o Sir Gâr, ag arno englyn gan Tudur Dylan. Ar silffoedd sawl dreser, roedd gwaith serameg Keith Brymer Jones, a llieiniau a ffedogau Bodlon, yn ogystal â chopiau o fy llyfr innau – Bwytai Cymru!

Yng nghanol y bwrlwm, dyna ble roedd Nia ei hun, yn ei helfen rhwng tair siop ar hyn o bryd. Fel yn achos y canghennau eraill, ceir pwyslais ar *decor* yr ystafell ei hun, gyda nifer o fanylion yn deillio o ffermdai'r teulu, ynghyd â chyffyrddiadau Sgandinafaidd a *Shabby-Chic*. Uwchlaw'r til, ceir goleuadau o sied wartheg fferm Pentre Celyn, ac yng nghefn y bwyty mae wal gyfan a wnaed o 'shinc' fferm Blaenbowi. A thu ôl i'r til, mae Saoirse o Amlwch a Menna o Landeilo mewn ffedogau Bodlon â chanddynt strapiau lledr. Rhaid i hyd yn oed y fenyw fusnes brysuraf gael diddordeb amgenach, a Nia ei hun aeth ati i'w creu. Trodd ei llaw yn ddiweddar at hen grefft ei thad. Gyda hynny mae'r cylch yn llawn.

**Cegin Bodlon, 188 Heol yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 3NB**
***Bwytai Cymru / Canllaw Bach Caerdydd*, Lowri Haf Cooke (Gwasg Gomer) £9.99 yr un**

# Gwylio'r Geiniog

*"O 6 Ebrill 2019 mae codiad enfawr yn ffioedd profiant."*



## Huw Roberts

Bendithion yr Ŵyl i chi i gyd.

Dyma grynodeb o brif bwyntiau'r Gyllideb – codiadau yn lwfansau personol o £11,850 i £12,500 i drethdalwyr sy'n talu treth incwm @ 20% ac mae'r raddfa 40% yn codi o £46,350 i £50,000. Ar y llaw arall mae codiadau Yswiriant Cenedaethol, gwin a theithio ar awyren.

O 6 Ebrill 2019 mae codiad enfawr yn ffioedd profiant (probate).

Os yw'r ystad o dan £300,000 ni fydd llawer o newid o'r ffi bresennol o tua £220. Os yw'r ystad dros £500,000 mae'r gost yn codi dros ei degfed i £2,500 ac os yw'r ystad dros £1,000,000 mae'r ffi yn £4,000.

I nifer o unigolion ar ôl colli anwylyd mae trefnu profiant yn anodd ac yn aml ni chaiff ei wneud am nifer o fisoedd ac efallai blynyddoedd. I'r rhain bydd oedi ymhellach yn gostus ac yn achosi mwy o loes. Os ydych chi, neu aelod o'ch teulu yn y sefyllfa yma, bydd yn fuddiol cwblhau'r gwaith papur cyn diwedd Mawrth 2019.

**Gofynnwch i Huw** : Mae gennyf roddion carden. Pa mor hir bydd y rhain yn para?

Gan amlaf bydd dyddiad pendant o tua 2 flynedd. Yn y gorffennol efallai byddai cwmnïau wedi ymestyn y dyddiad ond nid yw hyn yn digwydd bellach. Os yw cwmni yn dod i ben mae'r cardiau yn ddiwerth. Ewch i'w gwario!

Os oes gennych gwestiwn cyffredinol am y golofn anfonwch e-bost at huwrobertsaccountant@gmail.com neu trwy www.huwrobertsaccountant.cymru neu ffoniwch 029 2069 4524.

*Mae Huw yn gyfrifydd sy'n arbenigo mewn treth incwm, ewyllysiau a gwaith profiant.*

# Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Yn ein cyfarfod ar Dachwedd 19 cawsom gwmni'r Dr Keith Rowlands. Cafodd ei addysg gynradd yn ysgol pentref ei fagwraeth, Bancffosfelen, a'i addysg uwchradd yn Ysgol Ramadeg y Bechgyn, Caerfyrddin. Dilynodd gwrs gradd mewn mathemateg yn y brifysgol yn Abertawe, gan aros yno i gyflawni ymchwil mewn mathemateg bur a arweiniodd at ddoethuriaeth. Bu hyn yn fodd iddo ymuno â'r Adran Fathemateg yn y brifysgol yn Aberystwyth lle bu am weddill ei yrfa.

Ar ddechrau'r ddarlith cawsom wybod y byddai'r pwyslais ar rifau a fformwlâu sy wedi denu sylw mathemategwyr dros ganrifoedd. Cafwyd cyfle ar unwaith i ddwyn i gof hen ffefryn – Theorem Pythagoras (tua 600 C.C.) – sy'n nodi'r berthynas rhwng hydoedd ochrau triongl sgwâr, e.e. (5x5) = (4x4) + (3x3). Yna nodwyd agwedd ar waith Euclid (tua 300 c.c.), sef, bod cyfres y rhifau cysefin (2, 3, 5, 7, 11, 13, 17...) yn anfeidraidd (di-ddiwedd). Defnyddiodd y dull 'profi trwy groes-ddywediad' i gyfiawnhau ei ddatganiad.

Cyfeiriwyd at nifer o gewri mathemateg y ddeunawfed ganrif, megis, Euler, Leibnitz, a Richard Price, yr olaf yn enedigol o bentref Llangeinor, Cwm Ogwr; daeth yr olaf yn enwog am ei wleidyddiaeth ryddfrydol a'i fathemateg a osododd sail gadarn i'r diwydiant yswiriant.

Ychydig o flaen y rhain oedd Marin Mersenne, abad yn Ffrainc ac yn gyfaill i Descartes a Pascal. Pennaf ddiddordeb Mersenne oedd cyfresi yn dilyn y ffurf , 2 (i'r pŵer n) – 1, er enghraifft, 2 (i'r pŵer 2) – 1 = 3, 2 (i'r pŵer 3) -1 = 7, 2 (i'r pŵer 11) -1 = 2047 (23x89). Mentrwch gyda 2 (i'r pŵer 77, 232, 917) – 1 fel mae cyfrifiadur wedi'i gyflawni.

Diddorol iawn oedd clywed am y ffrwgwd a gododd rhwng Isaac Newton a Leibnitz, parthed pwy greodd y calcwlws. Aeth y cweryl at Y Gymdeithas Frenhinol am adolygiad gan bwyllgor dan gadeiryddiaeth William Jones o Ynys Môn. Digon brwnt oedd y cecru ac ni chafwyd dyfarniad penodol i blesio pawb.

Wrth orffen, cyfeiriodd ein siaradwr at stori dda arall yn y ganrif ddiwethaf ynghylch dirgelwch o'r ail ganrif ar bymtheg. Roedd Pierre de Fermat yn amatur o fathemategydd, ond yn meddu ar ddawn ryfeddol i gyhoeddi fformwla heb ddim o werth i gyfiawnhau ei ddewis. Bu mathemategwyr o fri yn chwysu uwchben y dirgelwch am flynyddoedd. Yn 1997 dyfarnwyd gwobr o 50,000 doler i Andrew Wiles am ei ddatrysiad. Ond ni fu'r daith yn un esmwyth, gan fod Nick Katz wedi nodi gwall sylweddol yn natrysiad cyntaf Wiles. Bu helynt ond gyda thacluso gofalus cafwyd y diwedd priodol. Mae'r hanes gwefreiddiol mewn llyfr, at ddarllenwyr cyffredin, yn dwyn y teitl Fermat's Last Theorem gan Simon Singh. Anrheg Nadolig!

Bydd ein cyfarfod nesaf ar Ionawr 21, 2019 pan glywn am salmonela a chancr.

Mae'r Gymdiethas yn cyfarfod ym mhrif adeilad Prifysgol Caerdydd ym Mharc Cathays. Mae llefydd parcio hwylus ar gael ym maes parcio yr adeilad ar gyfer y cyfarfodydd.

# Goliau a chyffro Caerdydd

Dwi wrth fy modd yn ysgrifennu hwn ar ôl i Gaerdydd guro Brighton o ddwy gôl i un. Mae'n wir taw dim ond dwy gêm dyn ni wedi ennill hyd yn hyn ond mae'r tîm yn dangos bod modd cystadlu a bod gobaith i ni aros lan. Ar ddechrau Tachwedd, mae Fulham a Huddersfield yn is na ni a mae pedwar tîm arall yn yr un sefyllfa â ni. Mae hyn yn wahanol iawn i'r hyn roedd rhai arbenigwyr wedi rhagweld, wrth feddwl bod sawl clwb wedi gwario llawer yn fwy na ni, a mae'n dangos taw nid arian yw'r ateb i bopeth. Ydw i wedi dweud ein bod ni wedi curo Brighton o ddwy gôl i un? Doedd hi ddim yn edrych yn dda wrth i Brighton sgorio gyda'u hymosodiad cyntaf ond ar ôl un deg chwe pas rhwng pob un o chwaraewyr Caerdydd roedd y gêm yn gyfartal. 16 pas? Pob chwaraewr yn cyffwrdd â'r bel? Swnio mwy fel Man City na Cardiff City mewn gwirionedd.

Ar ôl methu â sgorio ar ddechrau'r tymor cawson ni gôl yn erbyn Lerpwl, lle'r oedd eraill wedi methu, a nawr mae goliau yn cael eu sgorio'n go fynych. Braf gweld yr amddiffynnwr / ymosodwr Callum Paterson yn arwain y ffordd a gwych oedd gweld Sol Bamba yn sgorio yn y funud olaf yn erbyn Brighton. Sgoriodd yng ngêm gyntaf Neil Warnock ac eto yng nghanfed gêm Warnock yn erbyn Brighton. Dim ond 100 gêm? Mae llawer wedi digwydd. Fel clwb rydym wedi uno gyda'n gilydd yn erbyn y byd o flaen 30,000 o gefnogwyr bob wythnos. Yn wir os ydyn yn llwyddo bydd y cefnogwyr wedi gwneud cyfraniad. Mae'n anodd ein hanwybyddu pan fo sŵn byddarol bob wythnos yn gefndir i'n gêmau ar y teledu. Ydyn ni'n mynd i aros lan? Dwi wedi dweud yn gyson ein bod ni a dwi heb gael rheswm i newid fy meddwl ond...mae tipyn o ffordd i fynd eto!

*Steffan Webb*

# Pen-blwydd Hapus i Glwb Cymric yn 50 mlwydd oed!

Clwb llawn hanes a diwylliant Cymraeg, llwyddiannau a methiannau ar hyd y degawdau – eleni mae Clwb Cymric yn dathlu 50 mlynedd o fodolaeth ers ei sefydlu yn 1968. Erbyn heddiw wrth gwrs, mae'r clwb wedi ei drawsnewid. Nid yn unig y timau pêl-droed sy'n cystadlu yn y brifddinas, bellach mae timau pêl-rwyd a hoci i ferched hefyd yn cynrychioli Cymry Caerdydd.

Yn ystod y tymor bydd y clwb yn cynnal digwyddiadau i gydnabod ac i ddathlu ein pen-blwydd arbennig, yn ogystal â pharhau i gystadlu yn frwd yn ein campau amrywiol. Ym mis Mai, bydd y prif ddathliad, noson o hel atgofion, sgwrsio a mwynhau cwmni hen ffrindiau a newydd. Bydd rhagor o wybodaeth am y noson urddasol yn fuan!

Ar y cae pêl-droed, mae'r tîm cyntaf wedi wynebu trafferthion ar ddechrau'r tymor wrth golli sawl gêm yn olynol. Ond, yn ddiweddar mae mwy o drefn ar yr amddiffyn, a mwy o sgorio cyson wedi arwain at rediad o dair buddugoliaeth ac un gêm gyfartal yn y pedair gêm ddiwethaf. Yn sicr, mae chwaraewyr newydd y clwb, megis Carwyn Eckley, Gareth Weatherall, Rhys Jones ac eraill wedi cryfhau'r garfan, ond mae angen i berfformiadau a chanlyniadau barhau i wella os yw'r tîm cyntaf am fwynhau unrhyw lwyddiant eleni.

Mae'r ail-dîm wedi dechrau'r tymor yn gystadleuol unwaith eto, ac yn parhau i lewyrchu dan arweiniad hyfforddwyr Steve Cope a Rob Gaffey. Dim ond un golled mae'r bechgyn wedi ei brofi, ac mae brig y tabl mewn golwg, os gallwn fanteisio ar ein gêmau wrthlaw. Yn wir, mae cyfle euraidd gan yr ail-dîm i ennill dyrchafiad i'r brif adran eto eleni.

Cofiwch, mae Cymric o hyd yn edrych am aelodau newydd – mae croeso i unrhyw un ymuno â'n sesiynau ymarfer, bob nos Fercher (9-10pm) ar gae ymarfer Lecwydd.

Dilynwch ein tudalen Trydar @ClwbCymric ac Instagram @clwb_cymric

*Osian Pritchard*

